Adroddiad ar arolygiad dirybudd o

# Garchar Ei Fawrhydi Abertawe

gan Brif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi

21 Chwefror – 10 Mawrth 2023



# Cynnwys

Cyflwyniad 3

Beth sydd angen ei wella yng Ngharchar Ei Fawrhydi Abertawe ........................ 4

Gwybodaeth am Garchar Ei Fawrhydi Abertawe................................................ 6

Adran 1 Crynodeb o'r prif ganfyddiadau ........................................................ 8

Adran 2 Arweinyddiaeth ................................................................................ 11

Adran 3 Diogelwch ........................................................................................ 13

Adran 4 Parch ............................................................................................... 23

Adran 5 Gweithgarwch pwrpasol ................................................................. 37

Adran 6 Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau ........................................ 48

Adran 7 Cynnydd ar yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu llawn a'r adroddiad ar yr ymweliad craffu diwethaf....................................... 55

Atodiad I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau 63

Atodiad II Geirfa ........................................................................ 66

Atodiad III Rhagor o adnoddau ................................................. 68

# Cyflwyniad

Mae Carchar Ei Fawrhydi (CEF) Abertawe yn garchar derbyn categori B sydd wedi bod yn un o'r carchardai mwyaf gorlawn yng Nghymru a Lloegr ers cryn amser. Mae'r safle cyfyng o'r 19eg ganrif mewn lleoliad yng nghanol dinas, ac mae'n wynebu'r holl gyfyngiadau sy'n gyffredin i sefydliadau o'r fath. Ac eto, er gwaethaf yr heriau hyn, gwelsom fod arweinwyr wedi gweithio'n effeithiol dros y 18 mis blaenorol i wella canlyniadau ar draws pob un o'n pedwar prawf carchar iach.

Wrth galon y cynnydd hwn roedd diwylliant cadarnhaol a oedd yn canolbwyntio ar annog carcharorion i fynychu sesiynau addysg, sgiliau a gwaith. Yn ein harolwg, roedd carcharorion yn Abertawe yn fwy cadarnhaol am staff nag mewn carchardai tebyg. Dywedasant wrthym eu bod yn fwy tebygol o ddweud bod ganddynt aelod o staff i droi ato pe bai ganddynt broblem, eu bod yn cael cymorth i gyrraedd targedau eu cynllun dedfrydu, a'u bod yn cael eu hannog i fynychu sesiynau addysg, sgiliau a gwaith.

Yn briodol iawn, roedd arweinwyr wedi cymell cymryd rhan mewn addysg a gwaith, sy'n hanfodol ym mhob carchar, ond yn enwedig mewn carchardai derbyn fel Abertawe, lle'r oedd y rhan fwyaf o garcharorion ar remánd a ddim yn cael eu gorfodi i weithio. Yn hytrach na'r cymhellion symbolaidd rydym yn eu gweld yn aml, gallai'r rheini a oedd yn gweithio gael cymdeithasu'n rheolaidd gyda'r nos, dwy sesiwn ychwanegol yn y gampfa a rhai cyfleusterau coginio. Roedd y carcharorion y buom yn siarad â nhw yn gwerthfawrogi'r gweithgareddau hyn ac roeddent yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan yn y drefn o ganlyniad. Wrth wirio'r gofrestr, dim ond 8% o'r boblogaeth a oedd wedi cael eu cloi yn ystod y diwrnod gwaith, sy'n llawer llai nag mewn carchardai eraill.

Er bod ein cydweithwyr yn Estyn wedi nodi rhai gwendidau o hyd o ran y ddarpariaeth addysg, sgiliau a gwaith – yn fwyaf nodedig nad oedd digon o leoedd ar gael i'r holl garcharorion, ac nad oedd yr holl leoedd gwaith a oedd ar gael yn cael eu llenwi'n gyflym – roedd yn glod i arweinwyr a staff fod y carchar yn parhau i fod yn amgylchedd diogel yn y bôn, er bod mwy amser allan o'r gell a mwy o fynediad at weithgareddau. Er enghraifft, roedd trais yn erbyn staff a charcharorion yn llawer is nag adeg yr arolygiad blaenorol ac ymysg yr isaf o'r holl garchardai derbyn.

Roedd gwaith i adsefydlu carcharorion a'u helpu i ailintegreiddio'n ôl i'r gymuned hefyd wedi gwella. Roedd carcharorion yn cael cefnogaeth dda i gadw mewn cysylltiad â'u teulu a'u ffrindiau, yn ogystal â chymorth gyda chyflogaeth a'u harian. Fodd bynnag, nid oedd gan ormod o garcharorion lety cynaliadwy i fynd iddo ar ôl cael eu rhyddhau.

Roedd arweinwyr wedi ymateb yn dda i arolygiad 2017 o Garchar EF Abertawe ac wedi gweithio'n galed i gywiro'r diffygion a nodwyd gennym. Roedd y carchar bellach yn ddiogel ac yn barchus ac roedd gan y llywodraethwr newydd, a benodwyd fis cyn ein harolygiad, sylfaen gadarn i wneud cynnydd pellach.

**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai EF
Ebrill 2023

# Beth sydd angen ei wella yng Ngharchar Ei Fawrhydi Abertawe

Yn ystod yr arolygiad hwn, nodwyd 13 o bryderon allweddol, a dylid trin tri ohonynt fel blaenoriaethau. Pryderon blaenoriaeth yw'r rhai sydd bwysicaf o ran gwella canlyniadau i garcharorion. Mae angen i arweinwyr a rheolwyr roi sylw ar unwaith iddynt.

Dylai arweinwyr sicrhau bod yr holl bryderon a nodir yma yn cael sylw a bod cynnydd yn cael ei olrhain drwy gynllun sy'n nodi sut a phryd y bydd y pryderon yn cael eu datrys. Dylid darparu'r cynllun i Arolygiaeth Carchardai EF.

## Pryderon blaenoriaeth

1. **Nid oedd proses gynefino ffurfiol.** Roedd y broses gynefino'n cael ei chynnal yn achlysurol ac nid oedd yn cael ei monitro. Nid oeddem yn hyderus bod pob asiantaeth berthnasol wedi gweld carcharorion yn ystod eu dyddiau cynnar yn y ddalfa.
2. **Roedd gormod o garcharorion yn byw mewn celloedd gorlawn a oedd wedi'u cynllunio'n wreiddiol ar gyfer un.**
3. **Roedd y drefn dros y penwythnos yn rhy gyfyngedig - dim ond 90 munud y tu allan i'r gell bob dydd i'r rhan fwyaf o garcharorion.**
4. **Roedd diffyg gweithdai a threfniadau gwael o ran cynefino a dyrannu yn effeithio ar ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth addysg.** Roedd anghysonderau o ran mynediad carcharorion at sesiynau cynefino ar gyfer addysg a dyrannu lleoedd, oedi wrth agor gweithdai newydd a oedd yn berthnasol i'r farchnad lafur leol a diffyg mynediad at offer asesu a darpariaeth cwricwlwm.
5. **Nid oedd arweinwyr yn deall yr hyn sy'n achosi diffyg presenoldeb mewn addysg, sgiliau a gwaith, felly ni allent gynllunio gwelliannau yn effeithiol.**
6. **Roedd gormod o garcharorion yn cael eu rhyddhau heb lety ar ddiwrnod eu rhyddhau.**

## Pryderon allweddol

7. **Roedd y drefn yn yr uned wahanu yn rhy gyfyngedig.** Roedd carcharorion wedi'u gwahanu am gyfnodau hir, o dan glo yn eu celloedd, heb fawr i'w wneud, dim llawer o gyfle i ddefnyddio'r ffôn a dim ond 30 munud yn yr awyr agored bob dydd.
8. **Nid oedd y cynllun gwaith allweddol yn gweithredu'n effeithiol.** Nid oedd y rhan fwyaf o garcharorion yn cael sesiynau gwaith allweddol rheolaidd ac nid oedd y sesiynau a oedd yn cael eu cynnal yn cefnogi dilyniant y ddedfryd.

9. **Er gwaethaf gwelliannau mewn strwythurau llywodraethu strategol a rheoli risg, roedd pwysau staffio mewn gofal iechyd wedi arwain at arweinwyr lleol yn gwneud gwaith clinigol, gan leihau eu gallu i sicrhau bod y strwythurau hyn yn gwella diogelwch a chanlyniadau.**

10. **Roedd angen gwella'r gwaith o gadw cofnodion proffesiynol ar draws yr holl dimau gofal iechyd. Roedd yr wybodaeth yn brin ac nid oedd y diagnosis, y cynlluniau ar gyfer triniaeth a'r rhesymeg dros roi presgripsiwn bob amser yn amlwg.**

11. **Nid oedd dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu cefnogi'n effeithiol.** Roedd yr asesiad o anghenion dysgu ychwanegol carcharorion yn dibynnu gormod ar hunan-ddatgelu.

12. **Nid oedd cefnogaeth yn yr ystafell ddosbarth ar gyfer eginddarllenwyr wedi'i datblygu'n ddigonol.**

13. **Ar gyfer carcharorion a oedd yn cael eu monitro'n llawn er mwyn amddiffyn y cyhoedd, nid oedd pob un o'u galwadau'n cael eu monitro, a oedd yn ddiffyg sylweddol o ran amddiffyn y cyhoedd.**

# Gwybodaeth am Garchar Ei Fawrhydi Abertawe

**Tasg y carchar/sefydliad**
Carchar derbyn

**Llety arferol ardystiedig a chapasiti gweithredol (gweler yr Eirfa)**
Carcharorion a ddaliwyd adeg ein hymweliad: 406
Capasiti arferol a ardystiwyd ar gyfer y llinell sylfaen: 265
Capasiti arferol a ardystiwyd ac sy'n cael ei ddefnyddio: 265
Capasiti gweithredol: 468

**Poblogaeth y carchar**
- Derbyniwyd 3,191 o garcharorion newydd yn ystod y flwyddyn
- Derbyniwyd 108 o garcharorion sy'n wladolion tramor
- Roedd 14% o garcharorion o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol
- Rhyddhawyd 1,224 o garcharorion i'r gymuned yn ystod y flwyddyn
- Roedd 1,376 o garcharorion yn derbyn cefnogaeth ar gyfer defnyddio sylweddau yn ystod y flwyddyn
- Ceir 137 o atgyfeiriadau iechyd meddwl bob mis

**Statws y carchar (cyhoeddus neu breifat) a darparwyr allweddol**

Cyhoeddus

Darparwr iechyd corfforol: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Darparwr iechyd meddwl: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
Darparwr triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau: Dyfodol
Darparwr iechyd deintyddol: Time for Teeth
Darparwr fframwaith addysg mewn carchardai: Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi Cymru
Contractiwr hebrwng: GeoAmey

**Adran/Grŵp Carchardai**
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi Cymru

**Cyfarwyddwr Grŵp y Carchar**
Giles Mason

**Hanes yn gryno**
Mae CEF Abertawe yn garchar derbyn sydd hefyd yn gyfrifol am ailsefydlu carcharorion yn yr ardal leol. Dechreuwyd adeiladu'r carchar ym 1845 a chwblhawyd y gwaith ym 1861. Roedd yn garchar i garcharorion gwrywaidd a benywaidd tan 1922 pan drosglwyddwyd menywod i Garchar Caerdydd. Ers hynny, mae Abertawe wedi bod yn garchar lleol, gan ddal carcharorion hyd at Gategori B ac yn cynnwys y categori hwnnw. Ar ddechrau'r 1980au, sefydlodd Abertawe gynllun Gwrandawyr i garcharorion wedi'u hyfforddi gan y Samariaid, ac mae hyn bellach wedi datblygu i fod yn ddarpariaeth genedlaethol. Mae uned cymorth dwys i garcharorion wedi cael ei sefydlu i helpu carcharorion gyda strategaethau ymdopi. Mae'r ddarpariaeth yn cefnogi amrywiaeth o ymyriadau sydd wedi'u teilwra i unigolion sy'n 'ymdopi'n wael', yn hunan-niweidio'n barhaus neu sydd â phroblemau iechyd meddwl.

**Disgrifiad byr o unedau preswyl**
Adain A – carcharorion wedi'u dedfrydu ac ar remánd, gweithwyr a charcharorion di-waith, lle i 189
Adain B – adain gynefino, lle i 46
Adain C – carcharorion wedi'u dedfrydu ac ar remánd, lle i 40
Adain D – carcharorion wedi'u dedfrydu ac ar remánd, gweithwyr amser llawn, cyn-filwyr a rhai carcharorion di-waith, lle i 116
Adain E – uned wahanu, lle i 5
Adain F – carcharorion wedi'u dedfrydu, ar remánd a di-waith, lle i 59
Adain G – cymhelliant i fyw heb gamddefnyddio sylweddau ers 2021, lle i 52

**Enw'r llywodraethwr a dyddiad dechrau ar ei swydd**
Chris Simpson, Ionawr 2023 hyd yma

**Newidiadau i lywodraethwyr ers yr arolygiad diwethaf**
Brian Ward, Ionawr 2021 – Ionawr 2023
Amanda Corrigan, Ebrill 2019 – Ionawr 2021
Graham Barratt, 2016 – Ebrill 2019

**Cadeirydd Bwrdd Monitro Annibynnol**
Paul Baker

**Dyddiad yr arolygiad diwethaf**
Awst 2017

# Section 1 Crynodeb o’r prif ganfyddiadau

## Canlyniadau i garcharorion


1.1 Rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion yn erbyn pedwar prawf carchar iach: diogelwch, parch, gweithgarwch pwrpasol a chynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau (gweler Atodiad I am ragor o wybodaeth am y profion). Rydym hefyd yn cynnwys sylwadau ar arweinyddiaeth yn y carchar (gweler Adran 2).

1.2 Yn yr arolygiad hwn o Garchar EF Abertawe, gwelsom fod y canlyniadau i garcharorion fel a ganlyn:

- Yn dda ar gyfer diogelwch
- Yn weddol dda ar gyfer parch
- Ddim yn ddigon da ar gyfer gweithgarwch pwrpasol
- Yn weddol dda ar gyfer cynlluniau adsefydlu a rhyddhau.

1.3 Y tro diwethaf i ni arolygu Carchar EF Abertawe oedd yn 2017. Mae Ffigur 1 yn dangos sut mae canlyniadau i garcharorion wedi newid ers yr arolygiad diwethaf.

**Ffigur 1: Canlyniadau carcharorion iach Carchar EF Abertawe yn ôl meysydd carchar iach, 2017 a 2023**




## Cynnydd gyda’r prif bryderon ac argymhellion o’r arolygiad llawn

1.4 Yn ein harolygiad diwethaf yn 2017, gwnaethom 57 o argymhellion. Roedd pedwar ohonynt yn ymwneud â meysydd o bryder allweddol. Derbyniodd y carchar 48 o’r argymhellion yn llwyr a derbyn saith yn rhannol (neu’n ddibynnol ar adnoddau). Gwrthododd ddau o’r argymhellion.

1.5 Yn yr arolygiad hwn, gwelsom fod dau o’n hargymhellion am feysydd o bryder allweddol wedi’u cyflawni, a bod dau wedi’u cyflawni’n rhannol. Roedd yr argymhelliad ar gyfer diogelwch a’r argymhelliad ar gyfer parch wedi’u cyflawni. Roedd yr argymhelliad ar gyfer gweithgarwch

pwrpasol wedi'i gyflawni'n rhannol, yn ogystal â'r argymhelliad ar gyfer cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau. Ewch i Adran 7 i weld y rhestr lawn o'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion.

## Cynnydd ar argymhellion yn dilyn yr ymweliad craffu

1.6 Ym mis Medi 2020, yn ystod pandemig COVID-19, fe wnaethom gynnal ymweliad craffu yn y carchar. Roedd ymweliadau craffu yn canolbwyntio ar sefydliadau unigol a sut roeddent yn dod dros heriau pandemig COVID-19. Roeddent yn fyrrach nag arolygiadau llawn ac yn edrych ar feysydd allweddol yn seiliedig ar ein *Disgwyliadau* presennol ar sail hawliau dynol. I gael rhagor o wybodaeth am ymweliadau craffu, ewch i https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-hmi-prisons/covid-19/scrutiny-visits/.

1.7 Yn yr ymweliad craffu gwnaethom bum argymhelliad am feysydd o bryder allweddol. Yn yr arolygiad hwn gwelsom fod tri o'r argymhellion wedi'u cyflawni, nad oedd un wedi'i gyflawni ac nad oedd un yn berthnasol mwyach.

## Arferion cadarnhaol nodedig

1.8 Rydym yn diffinio arferion cadarnhaol nodedig fel arferion neu waith arloesol sy'n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrthynt. Mae'r Arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ganlyniadau da i garcharorion; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni'r nod a ddymunir; a sut gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrth yr arfer neu ei ddyblygu.

1.9 Daeth yr arolygwyr o hyd i chwe enghraifft o arferion cadarnhaol nodedig yn ystod yr arolygiad hwn.

1.10 Roedd arweinwyr a rheolwyr wedi sefydlu amrywiaeth o gymhellion ystyrlon i gymell carcharorion, gan gynnwys y rheini a oedd ar remánd, gan eu hannog i gymryd rhan mewn addysg a gwaith. Roedd hyn yn cynnwys mwy o amser allan o'r gell, cymdeithasu'n rheolaidd gyda'r nos a mynediad at gyfleusterau hunan-arlwyo. (Gweler paragraff 3.14)

1.11 Roedd y dyfarniadau a atgyfeiriwyd i'w hystyried gan yr heddlu yn cael eu rheoli'n dda iawn. Roedd yr heddlu yn rhoi diweddariad llafar ar achosion bob mis, ac roeddent yn cael eu cofnodi, yna roedd y gwrandawiad yn ailgynnull i gofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf. Roedd carcharorion a oedd wedi torri gorchymyn aflonyddu hefyd yn cael eu hatgyfeirio at yr heddlu er mwyn gallu cefnogi'r dioddefwr. (Gweler paragraffau 3.19 a 3.20)

1.12 Roedd rheolwyr wedi cyflwyno dulliau monitro cadarn ar glychau'r celloedd ac wedi sefydlu diwylliant lle'r oedd staff yn ymateb yn brydlon fel mater o drefn i glychau'r celloedd. (Gweler paragraff 4.9)

1.13 Roedd grwpiau babanod a phlant bach wythnosol yn galluogi carcharorion i dreulio dwy awr mewn amgylchedd hamddenol gyda'u plant ac aelodau eraill o'u teulu. (Gweler paragraff 6.4)

1.14 Roedd PACT (Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal mewn Carchardai) wedi sefydlu rhwydwaith proffesiynol o athrawon yn y gymuned leol a allai gefnogi plant a oedd a rhiant yn y carchar. (Gweler paragraff 6.5)

1.15 Cafodd y rhan fwyaf o garcharorion eu hamodau trwydded bythefnos cyn eu rhyddhau. (Gweler paragraff 6.32)

# Section 2 Arweinyddiaeth

**Mae arweinwyr yn darparu'r cyfarwyddyd, yr anogaeth a'r adnoddau i sicrhau canlyniadau da i garcharorion.** (I gael diffiniad o arweinwyr, gweler yr Eirfa.)

2.1 Mae arweinyddiaeth dda yn helpu i sbarduno gwelliannau a dylai arwain at well canlyniadau i garcharorion. Mae'r naratif hwn yn seiliedig ar ein hasesiad o ansawdd yr arweinyddiaeth gyda thystiolaeth o ffynonellau gan gynnwys yr adroddiad hunanasesu, trafodaethau â rhanddeiliaid, ac arsylwadau a wnaed yn ystod yr arolygiad. Nid yw'n arwain at sgôr.

2.2 Bu pedwar llywodraethwr ers ein harolygiad blaenorol yn 2017 a dim ond am fis yr oedd y llywodraethwr presennol wedi bod yn ei swydd ar adeg ein harolygiad. Er gwaethaf y potensial hwn am ansefydlogrwydd, gwelsom fod Abertawe yn sefydliad sy'n cael ei arwain yn dda lle'r oedd rheolwyr wedi blaenoriaethu'r meysydd hynny a oedd yn cael yr effaith fwyaf ar ganlyniadau i garcharorion.

2.3 Dros y 18 mis blaenorol, roedd uwch arweinwyr, gyda chefnogaeth swyddfa cyfarwyddwr grŵp y carchar, wedi canolbwyntio ar waith gwella a oedd yn dod o dan ddisgwyliadau HMIP ac wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ein holl brofion carchar iach. Yn ein harolwg, roedd carcharorion yn Abertawe yn fwy cadarnhaol na'u cymheiriaid mewn carchardai derbyn eraill am bron pob agwedd ar fywyd yn y carchar.

2.4 Roedd yr arweinwyr wedi ymrwymo i wella'n barhaus. Fe wnaethant ymateb yn dda i adborth drwy gydol yr arolygiad a gwelsom enghreifftiau da o ddysgu o ymarfer cadarnhaol mewn sefydliadau eraill yn ogystal â'n hadroddiadau arolygu thematig.

2.5 Er bod rhai gwendidau o hyd mewn gweithgarwch pwrpasol, roedd rheolwyr yn haeddu cydnabyddiaeth am gyflwyno trefn a oedd yn cymell carcharorion, y rhan fwyaf ohonynt ar remánd, i fynychu addysg a gwaith. Roedd arweinwyr wedi creu diwylliant cadarnhaol lle'r oedd staff yn annog carcharorion i fynd i sesiynau addysg a gwaith ac yn rhoi cymhellion ystyrlon iddynt pan oeddent yn cymryd rhan.

2.6 Roedd yn nodedig bod trais yn erbyn staff a charcharorion yn dal yn isel, hyd yn oed ar ôl i arweinwyr gynyddu amser y tu allan i'r gell. Roedd rheolwyr diogelwch yn deall beth oedd yn achosi trais a hunan-niweidio, ac roeddent wedi cymryd camau priodol i leihau hyn, gan wneud y carchar yn fwy diogel i staff a charcharorion.

2.7 Roedd rheolwyr preswyl yn gwneud yn siŵr bod y carchar yn lân a bod carcharorion yn cael yr offer yr oedd ei angen arnynt. Roedd goruchwylio amseroedd ymateb clychau argyfwng y celloedd yn arbennig o dda ac atebwyd bron pob cloch cell o fewn pum munud. Fodd bynnag, roedd y gwaith da hwn yn cael ei danseilio gan fethiant

arweinwyr cenedlaethol i fynd i’r afael â’r broblem hirsefydlog o orlenwi yn Abertawe.

2.8 Roedd trefniadau llywodraethu gwell rhwng y carchar a’r bwrdd iechyd wedi arwain at welliannau mewn gofal iechyd, ond roedd rhai diffygion yn dal i fodoli.

2.9 Roedd gwelliannau sylweddol yn y ddarpariaeth addysg, sgiliau a gwaith, i raddau, yn cael eu llesteirio gan oedi yn y broses gynefino a phroses ddyrannu ddryslyd. Ar ben hynny, nid oedd arweinwyr wedi cyflawni gwelliannau i’r seilwaith eto. Adeg yr arolygiad, roedd oedi wrth gwblhau gwaith adnewyddu ar ddau weithdy a phroblemau gyda chysylltedd mewnrwyd yn effeithio ar allu carcharorion i gael gafael ar ddarpariaeth.

2.10 O ran cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau, roedd arweinwyr wedi creu cysylltiadau arbennig o gryf gydag asiantaethau cymunedol yn Abertawe. Roedd carcharorion yn cael gwell cyswllt â gweithwyr proffesiynol yn y gymuned, gan gynnwys swyddogion prawf, na’r hyn rydym yn ei weld fel arfer.

# Section 3 Diogelwch

**Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu dal yn ddiogel.**

## Dyddiau cynnar yn y ddalfa

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion sy'n trosglwyddo i'r carchar ac oddi yno yn ddiogel ac yn cael eu trin yn weddus. Mae carcharorion sy'n cyrraedd yn ddiogel ac yn cael eu trin â pharch. Mae risgiau'n cael eu nodi a rhoddir sylw iddynt yn y dderbynfa. Cefnogir carcharorion ar eu noson gyntaf. Mae'r cynefino'n gynhwysfawr.

3.1 Roedd arweinwyr wedi blaenoriaethu trefniadau'r dderbynfa a'r noson gyntaf ac roedd y canlyniadau i garcharorion wedi gwella'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf.

3.2 Roedd tua 30 o garcharorion newydd yn cael eu derbyn bob wythnos. Roedd y rhan fwyaf o'r carcharorion y buom yn siarad â nhw wedi cael profiad cadarnhaol wrth gyrraedd ac, yn ein harolwg, dywedodd 91% eu bod wedi cael eu trin yn dda yn y dderbynfa. Cafodd yr holl garcharorion eu diosg-chwilio a sganiwyd eu corff pan oeddent yn cyrraedd. Ond dywedodd 86% o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn cael eu chwilio mewn ffordd barchus. Roedd ystafelloedd cadw y dderbynfa yn lân ac roedd yr holl garcharorion newydd yn cael eu croesawu gan staff a gweithwyr cyfoedion yn y carchar a oedd yn cynnig cefnogaeth a chyngor. Roedd y staff yn archwilio dogfennau'r llys ac yn asesu'r risgiau'n gyflym a oedd yn atal oedi hir. Yn ein harolwg, dywedodd 62% o garcharorion eu bod wedi treulio llai na dwy awr yn y dderbynfa o'i gymharu â 41% mewn carchardai tebyg. Gallai carcharorion sydd newydd gyrraedd weld nyrs yn breifat mewn ystafell addas ar gyfer asesiad sgrinio iechyd cychwynnol.

3.3 Roedd llawer o'r carcharorion y buom ni'n siarad â nhw yn gwerthfawrogi cael pryd poeth a diod ar ôl cyrraedd. Roedd y staff yn gwneud yn siŵr, ac eithrio mewn achosion eithriadol, bod carcharorion yn mynd â'u heiddo personol i'r adain ar eu noson gyntaf, a oedd yn helpu i leihau straen.

3.4 Roedd gweithdrefnau'r noson gyntaf yn canolbwyntio ar gadw carcharorion yn ddiogel. Yn y dderbynfa oedd y broses yn dechrau gan aelod o staff o adain B, sef y ganolfan noson gyntaf ddynodedig.

3.5 Roedd adain B yn dawel ac yn lân ac roedd celloedd ar gyfer y carcharorion a oedd newydd gyrraedd wedi cael eu paratoi'n dda. Roedd archwiliadau dros nos yn cael eu cynnal bob awr tan hanner nos, yna bob pedair awr neu'n amlach os oedd angen. Roedd staff adain B yn groesawgar ac yn barod i helpu.



**Cell gynefino sydd newydd gael ei pharatoi**

3.6 Nid oedd y rhan fwyaf o garcharorion wedi aros ar adain B am fwy na thri diwrnod ac roedd pwysau i adael celloedd er mwyn cael lle i garcharorion newydd. Roedd absenoldeb rhaglen gynefino ffurfiol yn ddiffyg. Er bod rhai elfennau o'r broses gynefino ar waith, nid oedd y rhain yn cael eu monitro, ac ni allai arweinwyr fod yn hyderus bod carcharorion wedi cael cymorth gan yr holl asiantaethau perthnasol yn ystod eu dyddiau cynnar.

3.7 Roedd y drefn ar adain B yn waeth nag yng ngweddill y carchar. Nid oedd carcharorion yn cael llawer mwy na 45 munud o amser allan o'r gell y dydd, a oedd yn cynnwys hanner awr yn yr awyr iach a 15 munud i gael cawod. Roedd hyn yn rhy gyfyngiadol o lawer.



**Uned gynefino**

3.8 Roedd y gwaith o reoli a goruchwylio asesiadau risg rhannu celloedd yn rhagorol. Roedd yr holl adolygiadau yn y sampl a arolygwyd gennym yn gyfredol, yn cael eu hystyried yn briodol ac roedd y canlyniadau'n cael eu cofnodi'n glir ar nodiadau achos electronig.

## Rheoli ymddygiad

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd diogel, ysgogol sy'n cael ei drefnu'n dda lle mae eu hymddygiad cadarnhaol yn cael ei hyrwyddo a'i wobrwyo. Ymdrinnir ag ymddygiad annerbyniol mewn modd gwrthrychol, teg, cymesur a chyson.

### Annog ymddygiad cadarnhaol

3.9 Roedd lefelau trais wedi gostwng ac yn isel iawn. Cafwyd 34 achos o drais (ymladd ac ymosodiadau) ymysg carcharorion yn ystod y 12 mis blaenorol, sef 88 am bob 1,000 o garcharorion o'i gymharu â 291 am bob 1,000 yn yr arolygiad blaenorol.

3.10 Yn ystod y 12 mis blaenorol, bu 19 ymosodiad yn erbyn staff o'i gymharu â 56 cyn ein harolygiad blaenorol.

3.11 Ymchwiliwyd i bob achos o drais ac roedd carcharorion yr oedd staff yn teimlo bod angen eu monitro yn cael eu cyfeirio am gymorth drwy gynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP, gweler yr Eirfa). Roedd hyn, ynghyd â rheoli adroddiadau gwybodaeth yn dda (gweler paragraff 3.36), yn golygu bod arweinwyr yn ymwybodol iawn o achosion o drais. Roedd trais yn cael ei drafod yn y cyfarfod diogelwch ac roedd camau gweithredu addas wedi cael eu rhoi ar waith, a oedd wedi helpu i sicrhau lefelau mor isel.

3.12 Roedd tri CSIP ar agor adeg yr arolygiad. Roeddent o ansawdd da ac yn cynnwys nodiadau a chamau gweithredu cyfoes a gyfrannodd at reoli trais y carcharorion hyn yn effeithiol. Roedd y staff yn ymwybodol o'r CSIPs a pham bod carcharorion yn cael eu rheoli fel hyn.

3.13 Trafodwyd pob carcharor ar CSIP yn y cyfarfod ymyriadau diogelwch wythnosol (SIM) a gwnaed penderfyniadau ynghylch eu rheoli'n barhaus a chamau pellach. Roedd nifer dda yn bresennol yn y cyfarfod hwn ond roedd y cofnodion yn dangos bod rhai cynrychiolwyr allweddol, fel staff preswyl yn absennol yn aml.

3.14 Roedd arweinwyr wedi rhoi nifer o gymhellion ystyrlon ar waith ar gyfer carcharorion a oedd yn cymryd rhan mewn gwaith ac addysg. Yn ogystal ag anogaeth gan staff, roedd hyn yn cynnwys y gallu i goginio bwyd ar yr adain, tua saith awr allan o'r gell, sesiynau ychwanegol yn y gampfa a chyswllt gyda'r nos. Dywedodd carcharorion wrthym eu bod yn dymuno aros yn Abertawe i gadw'r cymhellion hyn ac nad oeddent am i ymddygiad gwael beryglu hynny.

3.15 I'r gwrthwyneb, ychydig iawn o effaith a gafodd y fframwaith polisi cymhellion ar ymddygiad oherwydd ychydig iawn o gymhellion oedd ar gael ac roedd yn cymryd gormod o amser i gael gafael arnynt. Dywedodd carcharorion wrthym eu bod yn fwy tueddol o ymddwyn mewn ffordd rhag-gymdeithasol oherwydd bod ganddynt farn gadarnhaol am gysondeb y drefn a gwaith ac addysg, y staff cefnogol a chael eu trin yn weddus (gweler paragraff 4.5).

## Dyfarniadau

3.16 Roedd nifer y dyfarniadau wedi gostwng yn sylweddol ers ein harolygiad diwethaf, gyda 963 o gyhuddiadau wedi'u cofnodi yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd y rhan fwyaf yn gymesur ac nid ar gyfer torri cyfreithiau dibwys.

3.17 Roedd yr arweinwyr a gynhaliodd y gwrandawiadau yn defnyddio eu disgresiwn wrth ddyfarnu. Gwelsom enghreifftiau da yn dilyn dyfarnu rhywun yn euog, er mwyn annog ymddygiad da, fel rhybuddion pan oedd carcharorion yn dangos edifeirwch a dyfarniadau gohiriedig.

3.18 Bu uwch arweinwyr yn craffu ar y broses ddyfarnu'n rheolaidd ond nid oeddent wedi mynd i'r afael â'r lefel wael o ymchwilio a welsom yn rhai o'r cofnodion. Cynhaliwyd cyfarfodydd safoni dyfarniadau yn rheolaidd i adolygu difrifoldeb a math y dyfarniadau a roddir mewn gwrandawiadau.

3.19 Deliwyd â'r rhan fwyaf o'r cyhuddiadau'n gyflym. Roedd 17 o ddyfarniadau a atgyfeiriwyd i'w hystyried gan yr heddlu yn dal heb eu cwblhau ac roedd y rhain yn cael eu rheoli'n dda iawn. Roedd yr heddlu yn rhoi diweddariad llafar ar achosion i aelod o staff bob mis, ac roeddent yn cael eu cofnodi, yna roedd y gwrandawiad yn ailgynnull i gofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.

3.20 Roedd carcharorion a oedd wedi'u cael yn euog o dorri gorchymyn aflonyddu drwy geisio cysylltu â'r person perthnasol hefyd yn cael eu

hatgyfeirio at yr heddlu er mwyn gallu cefnogi'r dioddefwr. Roedd hyn yn arfer da nad ydym yn arfer ei weld.

## Defnyddio grym

3.21 Roedd lefel y grym a ddefnyddiwyd gan staff wedi gostwng ers ein harolygiad diwethaf ac roedd yn isel. Yn ystod y 12 mis blaenorol, defnyddiwyd grym 106 o weithiau o'i gymharu â 398 gwaith cyn ein harolygiad diwethaf. Roedd hyn yn is nag mewn carchardai tebyg.

3.22 Yn ystod y 12 mis blaenorol, ni ddefnyddiwyd batonau, PAVA (chwistrell analluogi) na llety heb ddodrefn.

3.23 Roedd lluniau teledu cylch cyfyng a welsom yn dangos bod cyfiawnhad dros ddefnyddio grym, pan oedd yn cael ei ddefnyddio, a bod bron pob digwyddiad wedi cael ei dawelu. Roedd carcharorion yn sefyll ar eu traed fel mater o drefn ac yn cydymffurfio wrth gerdded i'w celloedd neu'r uned wahanu.

3.24 Roedd y goruchwylio a'r llywodraethu wedi gwella ac mewn cyfarfod defnyddio grym bob wythnos, roedd data yn cael ei archwilio, roedd profiadau carcharorion o leiafrifoedd yn cael eu hystyried ac roedd yr hyn a ddysgwyd yn dilyn ôl-drafodaethau â charcharorion yn cael eu hystyried hefyd. Bu rheolwyr yn craffu ar bob achos o ddefnyddio grym i ganfod pryderon, er, yn y lluniau a welsom, gwelsom arferion gwael achlysurol a oedd wedi'u methu neu nad oeddent wedi'u nodi'n llawn.

3.25 Roedd camerâu fideo newydd ar y corff wedi cael eu cyflwyno'n ddiweddar iawn ac roedd un ar gael erbyn hyn i bob swyddog ar ddyletswydd yn y carchar. Roedd yr arweinwyr yn gobeithio y byddai hyn yn gwella faint o ddeunydd a fyddai'n cael ei gasglu.

3.26 Yn y gorffennol, roedd lluniau camera ar y corff ar gael ar gyfer tua 60% o'r holl ddigwyddiadau, ond ychydig iawn oedd yn llwyddo i recordio dechrau'r digwyddiad, a oedd yn wael.

## Gwahanu

3.27 Roedd yr uned wahanu ar ben y landin ac roedd gât o'i blaen. Roedd yn fach iawn a gallai ddal hyd at bump o garcharorion. Roedd dau garcharor yn yr uned adeg yr arolygiad.




**Uned wahanu**

3.28 Roedd yr uned wahanu'n cael ei defnyddio'n amlach nag yn ein harolygiad diwethaf gyda 287 o garcharorion wedi cael eu gwahanu yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd arweinwyr yn priodoli'r cynnydd hwn i'r sganiwr corff yn dod o hyd i eitemau cudd ar garcharorion a oedd yn cyrraedd Abertawe a mwy yn gwrthod dilyn gorchmynion uniongyrchol wrth i nifer y celloedd dwbl gynyddu.

3.29 Ar gyfartaledd, roedd carcharorion yn treulio pum diwrnod yn yr uned wahanu ac ychydig iawn a oedd yn aros yno am gyfnod hir. Dim ond un carcharor oedd wedi cael ei wahanu am fwy na 42 diwrnod yn ystod y 12 mis blaenorol ac roedd hynny wedi cael ei gymeradwyo'n briodol.

3.30 Roedd y celloedd mewn cyflwr da heb fawr o graffiti. Trefn sylfaenol iawn oedd gan y carcharorion, gyda 30 munud y tu allan bob dydd a gallu defnyddio'r gawod a ffôn. Roedd y gwaith rheolaidd o ddiosg-chwilio carcharorion a oedd yn symud i'r uned wahanu wedi dod i ben ac roedd angen i uwch arweinydd awdurdodi hyn.

3.31 Roedd llinellau ffôn wedi cael eu gosod y tu allan i ddrws pob cell i'r carcharor eu defnyddio yn dilyn asesiad risg, ond nid oedd unrhyw garcharor wedi cael ei asesu eto fel un addas ers eu gosod ac nid oeddent erioed wedi cael eu defnyddio. Roedd hyn yn rhy gyfyngol o ystyried y risgiau a berid gan y rhan fwyaf o garcharorion wedi'u gwahanu.



**Cell wahanu**

3.32 Roedd y gwaith o oruchwylio’r uned wahanu yn dda. Roedd pob carcharor a oedd yn cael ei ddal yno wedi’i awdurdodi’n briodol gan reolwr a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ac roedd adolygiadau’n amserol.

3.33 Er bod y meddyg hefyd wedi ymweld bob tri diwrnod, dangosodd cofnodion nad oedd nyrs yn mynd i’r uned wahanu bob dydd fel sy’n ofynnol o dan reoliadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, a oedd yn fesur diogelu allweddol ar gyfer carcharorion, yn enwedig ar gyfer gwahanu estynedig. Datrysodd arweinwyr hyn yn gyflym ar ôl i ni ei godi gyda nhw.

3.34 Roedd aelod o’r gaplaniaeth yn bresennol bob dydd ond yn rhy aml yn cyfathrebu â charcharorion drwy ddrysau wedi’u cloi. Hefyd, roedd y rheolwr ar ddyletswydd a’r llywodraethwr yn mynychu’n rheolaidd.

3.35 Roedd y grŵp monitro ac adolygu gwahanu yn effeithiol ac yn cyfarfod bob chwarter i edrych ar dueddiadau.

## Diogelwch

Canlyniadau disgwyliedig: Mae diogelwch a threfn dda yn cael eu cynnal drwy roi sylw i faterion ffisegol a gweithdrefnol, gan gynnwys gwybodaeth diogelwch effeithiol a pherthynas gadarnhaol rhwng staff a charcharorion. Mae carcharorion yn cael eu diogelu rhag dod i gysylltiad â defnyddio sylweddau ac mae mesurau effeithiol ar waith i leihau'r cyflenwad cyffuriau.

3.36 Roedd gwybodaeth am ddiogelwch yn cael ei rheoli'n dda ac yn brydlon. Roedd gan yr adran ddiogelwch adnoddau da ac roedd yno dîm chwilio pwrpasol. Roedd arweinwyr yn gallu ymateb yn gyflym i wybodaeth a chymryd camau priodol. Arweiniodd tua 70% o'r chwiliadau at ganfod rhywbeth, a oedd yn dda.

3.37 Yn ystod y 12 mis blaenorol, cyflwynwyd 1,596 o adroddiadau gwybodaeth. Ynghyd â chyfathrebu da rhwng staff a charcharorion, roedd hyn yn golygu bod arweinwyr yn ymwybodol o'r risgiau presennol neu bosib i ddiogelwch y carchar.

3.38 Roedd y cyfarfod diogelwch misol yn seiliedig ar asesiad tactegol lleol da a oedd yn sail i unrhyw asesiad o fygythiadau i ddiogelwch. Roedd y camau a gymerwyd i leihau'r bygythiadau a nodwyd wedi bod yn effeithiol, yn enwedig gyda'r gostyngiad yn y cyflenwad o sylweddau anghyfreithlon i'r carchar. Roedd y sganiwr corff wedi cyfrannu'n sylweddol at hyn, ynghyd â phostio staff y tu allan i'r wal o amgylch y safle pan oedd carcharorion yn symud i waith ac addysg, a oedd yn lleihau'r cyfleoedd i eitemau gael eu taflu drosodd.

3.39 Roedd llwyddiant y mesurau hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghyfraddau'r profion cyffuriau gorfodol positif a oedd wedi gostwng o 20.61% yn ystod y 12 mis cyn ein harolygiad blaenorol i 13.06% yn yr arolygiad hwn. Roedd y rhan fwyaf o brofion positif bellach yn ymwneud â chamddefnyddio meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn hytrach na sylweddau anghyfreithlon yn cael eu smyglo i mewn.

3.40 Defnyddio meddyginiaeth yn anghyfreithlon, gyda charcharorion yn gwerthu neu'n camddefnyddio eu meddyginiaeth ar bresgripsiwn, oedd y prif bryder. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn ein harolwg lle dywedodd 16% o'r ymatebwyr eu bod wedi datblygu problem o ran cymryd meddyginiaeth nad oedd wedi'i rhoi ar bresgripsiwn iddynt tra roeddent yn y carchar o'i gymharu â 9% mewn carchardai tebyg. Dim ond 4% o garcharorion a ddywedodd ei bod yn hawdd cael alcohol a 5% a ddywedodd ei bod yn hawdd cael tybaco - y ddau ffigur yn llawer gwell nag mewn carchardai tebyg.

3.41 Roedd y strategaeth cyffuriau'n canolbwyntio'n briodol ar ddefnyddio meddyginiaeth ar bresgripsiwn yn anghyfreithlon ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghofnodion y cyfarfodydd misol lle cymerwyd camau i leihau'r defnydd anghyfreithlon a thracio eu heffeithiolrwydd.

3.42 Nid oedd rhai gweithdrefnau diogelwch yn gymesur o hyd. Gwelsom garcharorion yn cael eu diosg-chwilio'n rheolaidd yn syth cyn iddynt gael eu rhyddhau ac yn dilyn ymweliadau. Gwelsom hefyd garcharorion

yn cael eu rhoi mewn gefynnau dwbl yn rheolaidd â swyddog cyn mynd i angladd ac wrth fynd i'r ysbyty, nad oedd yn briodol heb fod asesiad risg wedi'i gwblhau'n iawn.

## Diogelu

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r carchar yn darparu amgylchedd diogel sy'n lleihau'r risg o hunan-niweidio a hunanladdiad. Mae carcharorion sydd mewn perygl o hunan-niweidio neu hunanladdiad yn cael eu nodi ac yn cael gofal a chymorth priodol. Mae pob oedolyn agored i niwed yn cael ei adnabod, ei amddiffyn rhag niwed ac esgeulustod ac yn cael gofal a chymorth effeithiol.

### Atal hunanladdiad a hunan-niweidio

3.43 Bu dwy farwolaeth yn y ddalfa ar ddiwedd 2022 ac roedd ymchwiliad gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth yn parhau. Roedd cyfraddau hunan-niweidio wedi gostwng ers yr arolygiad diwethaf ac roeddent yn is o lawer nag mewn carchardai tebyg (493 am bob 1,000 o garcharorion o'i gymharu â 763 am bob 1,000 o garcharorion).

3.44 Yn ystod y 12 mis blaenorol, cafwyd 190 achos o hunan-niweidio, ac roedd angen triniaeth yn yr ysbyty ar 13 ohonynt. Dros yr un cyfnod, agorwyd 381 ACCT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm), y system rheoli achosion ar gyfer carcharorion sydd mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio, ac roedd 14 o garcharorion ar ACCT adeg ein harolygiad.

3.45 Roedd y cynllun ACCT yn cael ei reoli'n dda iawn, gydag adolygiadau'n cael eu cynnal ar amser, yn aml gan yr un rheolwr achos, gyda chyfraniad staff gofal iechyd. Cafodd yr adolygiadau ACCT a fynychwyd gennym eu cynnal gyda sensitifrwydd a gofal. Fodd bynnag, fe wnaethom siarad â charcharorion sy'n cael eu cefnogi ar ACCT, a roddodd ymatebion cymysg. Roedd rhai'n teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda iawn, nid oedd eraill yn teimlo bod yr adolygiadau wythnosol yn eu helpu i deimlo'n ddiogel. Buom yn trafod hyn ag arweinwyr a oedd yn cytuno bod adolygiadau wythnosol yn rhy ragnodol ac y gallai fod angen cymorth ychwanegol ar rai carcharorion. Fe wnaethant gytuno i drefnu adolygiadau ACCT ar amlder sy'n briodol i anghenion unigol carcharor. Nid oedd tua un o bob pump o'r staff wedi cael yr hyfforddiant ACCT diweddaraf ond roedd sesiynau wedi'u trefnu ar gyfer gweddill y flwyddyn.

3.46 Roedd arweinwyr yn ymateb i'r gwersi a ddysgwyd o farwolaethau yn y ddalfa ac roedd y cynllun gweithredu ar gyfer marwolaethau yn y ddalfa yn cael ei adolygu bob mis yn y cyfarfod diogelwch. Roedd y data perthnasol hefyd yn cael ei adolygu yn y cyfarfod diogelwch ac roedd arweinwyr yn mynd i'r afael yn brydlon â'r ffactorau sy'n sbarduno hunan-niweidio. Roedd y cyfarfod diogelwch yn seiliedig ar strategaeth lleihau niwed a oedd yn cynnwys dull gweithredu manwl a pherthnasol ar draws y carchar i leihau hunan-niweidio.

3.47 Roedd arweinwyr wedi mynd i'r afael â nifer o feysydd allweddol a oedd wedi lleihau cyfraddau hunan-niweidio. Yn benodol, roeddent yn craffu'n rheolaidd ar fynediad at Wrandawyr (carcharorion a hyfforddwyd gan y Samariaid i gefnogi cyd-garcharorion yn emosiynol) ac roedd gan garcharorion fynediad da at Wrandawyr. Roedd arweinwyr yn monitro'r amser o'r dydd a hyd y gwrando i wneud yn siŵr nad oeddent yn cael eu cyfyngu na'u cwtogi gan staff mewn unrhyw ffordd. Yn ein harolwg, dywedodd 56% ei bod yn hawdd siarad â Gwrandäwr o'i gymharu â 40% mewn carchardai tebyg. Roedd cael teclynnau eillio electronig yn hytrach na raseli tafladwy wedi arwain at gyfraddau is o hunan-niweidio â llafnau ac roedd carcharorion yn gwerthfawrogi cael defnyddio teclynnau eillio personol.

3.48 Roedd goruchwyliaeth gyson wedi cael ei defnyddio 30 o weithiau yn ystod y 12 mis blaenorol. Roedd cadw cofnodion yn wael ac nid oedd arweinwyr wedi monitro pa mor hir yr oedd carcharorion wedi cael eu gwylio'n gyson neu a oedd hynny bob amser yn briodol. Ni ddefnyddiwyd unrhyw ddillad gwrth-rwyg yn ystod y flwyddyn flaenorol.

3.49 Nid oedd cofnodion penderfyniadau y gellir eu hamddiffyn ar gyfer carcharorion ar ACCT, a oedd wedi cael eu gwahanu, bob amser yn adlewyrchu nac yn cadarnhau mai fel y dewis olaf yr oedd gwahanu wedi cael ei ystyried.

**Amddiffyn oedolion sydd mewn perygl (gweler yr Eirfa)**

3.50 Roedd y polisi diogelu yn gyfredol ond nid oedd wedi cael ei hysbysebu'n dda. Roedd llawer o'r staff y buom yn siarad â nhw yn ansicr pwy oedd arweinydd diogelu'r carchar neu sut i atgyfeirio. Ychydig o staff oedd wedi derbyn hyfforddiant. Yn fwy cadarnhaol, roedd gan arweinydd y carchar gysylltiadau da â Bwrdd Diogelu Morgannwg ac roedd wedi mynychu nifer o gyfarfodydd yn ddiweddar.

3.51 Yn ystod y 12 mis blaenorol, roedd chwe atgyfeiriad diogelu wedi cael eu hanfon at yr awdurdod lleol, ond nid oedd y canlyniadau wedi cael eu monitro ac nid oedd unrhyw ddysgu dilynol wedi cael ei wireddu.

# Section 4 Parch

**Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch at eu hurddas.**

## Perthynas rhwng staff a charcharorion

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch gan staff drwy gydol eu cyfnod yn y ddalfa ac fe'u hanogir i gymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd a'u penderfyniadau eu hunain.

4.1 Yn ein harolwg, roedd carcharorion wedi ymateb yn fwy cadarnhaol am eu perthynas â staff nag mewn carchardai tebyg. Roedd yr ymatebion i'r arolwg hefyd yn dangos natur adeiladol ymgysylltu â staff. Er enghraifft, dywedodd 70% nad oeddent wedi profi unrhyw fath o erledigaeth na bwlio gan staff, dywedodd 59% eu bod yn cael eu hannog gan staff i fynychu addysg, hyfforddiant neu waith a dywedodd 71% bod staff yn eu helpu i gyrraedd targedau eu cynllun cystodaeth. Roedd yr holl ymatebion hyn yn sylweddol well nag mewn carchardai tebyg. Atgyfnerthwyd canfyddiadau cadarnhaol carcharorion gan ein harsylwadau. Roedd y staff yn weladwy, yn hawdd siarad â nhw ac yn ymateb i garcharorion yn eu hunedau preswyl.

4.2 Nid oedd y cynllun gweithiwr allweddol (gweler yr Eirfa) wedi'i sefydlu'n ddigon da. Dywedodd mwy o garcharorion nag mewn carchardai tebyg fod ganddynt weithiwr allweddol (71% o'i gymharu â 54%) ond nid oedd nodiadau achos electronig yn dangos bod cyswllt rheolaidd rhwng carcharorion a'u gweithiwr allweddol dynodedig. Roedd gwaith allweddol yn cael ei ddefnyddio'n dda i gefnogi rhai carcharorion a oedd wedi cael trafodaethau rheolaidd â'r un swyddog dros gyfnod o fisoedd, ond i lawer nid oedd wedi'i ddatblygu'n ddigonol heb fawr ddim tystiolaeth o gyswllt a diffyg cefnogaeth i reoli troseddwyr (gweler paragraff 6.9).

4.3 Roedd rheolwyr wedi cyflwyno rolau gweithwyr cyfoedion a oedd yn helpu i hyrwyddo perthnasoedd cadarnhaol a chynnwys carcharorion yng nghymuned y carchar. Roedd cyflogi cyn-filwyr fel cyfeillion cefnogol i garcharorion a oedd yn cael trafferth â bywyd yn y carchar yn enghraifft dda o hyn, yn ogystal â'r rolau cynrychioliadol y gallai carcharorion eu hysgwyddo.

## Bywyd bob dydd

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn byw mewn amgylchedd glân a gweddus ac yn ymwybodol o reolau ac arferion y carchar. Darperir gwasanaethau sylfaenol hanfodol iddynt, ymgynghorir â hwy'n rheolaidd a gallant wneud cais am wasanaethau a chymorth ychwanegol. Mae'r prosesau cwyno ac unioni yn effeithlon ac yn deg.

### Amodau byw

4.4 Roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn byw mewn celloedd gorlawn a oedd yn gyfyng, heb lawer o breifatrwydd. Rydym wedi codi'r pryder hwn mewn nifer o arolygiadau blaenorol yn Abertawe.



**Celloedd ar adain D (chwith) ac adain A (dde)**

4.5 Er gwaethaf hyn, roedd rheolwyr wedi blaenoriaethu gwedduster. Roedd y celloedd a'r mannau cymunedol yn lân ac wedi'u paratoi'n dda. Nid oedd llawer o graffiti o gwmpas y carchar, roedd sgriniau preifatrwydd wedi cael eu gosod o amgylch y toiledau yn y celloedd ac roedd caeadau ar y toiledau. Roedd ffonau wedi cael eu gosod yn y celloedd ers yr arolygiad diwethaf. Roedd hyn yn ei gwneud hi'n haws i garcharorion gysylltu â theuluoedd a ffrindiau, er bod y celloedd a rennir yn golygu ei bod yn anodd siarad yn breifat. Nid oedd gan garcharorion mewn celloedd a rennir unrhyw storfa dan glo i gadw eu heiddo.

4.6 Roedd carcharorion yn gallu cael gafael ar ddillad glân y carchar, dillad gwely, tyweli ac eitemau glanhau, ac o leiaf unwaith yr wythnos roeddent yn gallu defnyddio cyfleusterau golchi dillad. Nid oedd siacedi awyr agored yn cael eu darparu fel mater o drefn ar wahân i rai ar gyfer carcharorion hŷn, ond roedd arweinwyr yn ymateb pan oedd hyn yn cael ei godi. Roedd tîm bach o garcharorion a allai beintio celloedd a helpu gyda mân atgyweiriadau yn helpu i gynnal a chadw'r

amgylchedd. Roedd rhai cawodydd wedi cael eu hailwampio ac roedd rhai adeiniau wedi cael dodrefn a lloriau newydd. Roedd hi'n siomedig bod y gwaith hwn wedi cael ei ohirio nes bod y carchar cyfan yn cael ei uwchraddio.

4.7 Roedd y drefn yn caniatáu bod gan garcharorion fynediad dibynadwy at gawodydd. Yn ein harolwg, dywedodd 93% eu bod yn gallu cael cawod bob dydd o'i gymharu â 70% mewn carchardai tebyg a 65% yn ein harolwg blaenorol. Roedd y rhan fwyaf o'r cawodydd cymunedol yn cynnig rhywfaint o breifatrwydd ond nid oedd ciwbiclau na pharwydydd rhwng y cawodydd ar adain G nac yn y campfeydd.

4.8 Roedd awyrgylch hamddenol i'r sesiynau cyswllt. Roedd gan yr adain breswyl rywfaint o offer hamdden, ond roedd arweinwyr yn ymwybodol bod angen mwy o weithgareddau. Roedd carcharorion yn defnyddio rhestrau teledu a oedd yn cael eu harddangos ar sgriniau cyffwrdd ar yr adeiniau, a oedd yn gynllun da a gyflwynwyd gan arweinwyr carchardai.

4.9 Roedd y clychau galw yn y celloedd yn cael eu goruchwylio'n ardderchog. Roedd arweinwyr yn monitro data'n ofalus, yn mynd ar drywydd unrhyw glychau'r celloedd nad ymatebwyd iddynt o fewn pum munud ac wedi sefydlu diwylliant lle'r oedd staff yn ymateb i glychau celloedd yn brydlon ac yn rheolaidd ar draws y carchar.

**Gwasanaethau preswyl**

4.10 Dywedodd ychydig dros hanner y carcharorion yn ein harolwg fod y bwyd yn dda. Roedd ansawdd a nifer y prydau bwyd a welsom yn rhesymol. Roedd cinio a phrydau gyda'r nos yn cynnwys dewis poeth bob dydd a'r pryd gyda'r nos oedd pryd mwy sylweddol y dydd, ar wahân i ddydd Sul. Roedd amseroedd gwasanaeth bwyd yn gynnar o'u cymharu â'r gymuned, er enghraifft, roedd y pryd gyda'r nos yn cael ei weini rhwng 4.15pm a 5.15pm. Roedd y carcharorion yn dewis eu prydau o fwydlen cylch pedair wythnos. Roedd darpariaeth ar gyfer deietau crefyddol a meddygol, yn dilyn trafodaeth â staff gofal iechyd a chaplaniaid pan oedd angen. Roedd cynlluniau ar waith ar gyfer Ramadan.

4.11 Roedd prydau ar thema yn cael eu gweini naw gwaith yn ystod y flwyddyn ac roedd carcharorion yn gwerthfawrogi'r rhain. Ymgynghorwyd â charcharorion ynghylch bwyd drwy arolygon a fforymau gyda rheolwr y gegin. Roedd yr ymgynghoriadau hyn wedi arwain at rai newidiadau, a oedd yn gadarnhaol.

4.12 Roedd y brif gegin a'r cownteri arlwyo yn lân ac wedi'u trefnu'n dda. Roedd yr ardal o flaen un cownter arlwyo yn cael ei hysgubo sawl gwaith yn ystod un gwasanaeth bwyd wrth i garcharorion a oedd yn dychwelyd i'w celloedd ollwng sbarion bwyd. Roedd carcharorion a oedd yn gweithio ar baratoi bwyd neu wasanaeth yn gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol ac yn cael hyfforddiant hylendid bwyd sylfaenol. Roedd cynlluniau i gyflwyno cymhwyster cegin Clink Charity (elusen sy'n ceisio lleihau aildroseddu drwy hyfforddi ac adsefydlu carcharorion) yn mynd rhagddynt.

4.13 Ychydig o garcharorion oedd yn cael cyfle i fwyta gyda'i gilydd ac, ar wahân i adain G a grŵp bach o weithwyr ar adain A, roedd y rhan fwyaf yn bwyta yn eu celloedd. Roedd tostwyr a microdonnau ar gael yn ystod y cymdeithasu gyda'r nos, ond roedd diffyg cyfleusterau storio bwyd addas yn atal rhagor o opsiynau iddynt goginio eu bwyd eu hunain.

4.14 Roedd y siop ar agor bob wythnos, er y gallai carcharorion newydd aros hyd at 10 diwrnod am eu harcheb lawn gyntaf. Roedd rhai catalogau ar gael i garcharorion brynu eitemau ac roedd trefniadau wedi'u gwneud i garcharorion archebu eitemau gwerth mwy bob chwe mis os oedd ganddynt yr arian i'w prynu.

**Ymgynghori â charcharorion, ceisiadau ac unioni**

4.15 Bu ymgynghori rheolaidd â charcharorion, gan gynnwys fforwm bob pythefnos gyda'r llywodraethwr neu uwch reolwr arall. Roedd fforymau eraill yn canolbwyntio ar gymhellion, bwyd, yr eitemau sydd ar gael i'w prynu yn y siop a grwpiau nodweddion gwarchodedig (gweler yr Eirfa a pharagraff 4.23). Cafodd cofnodion y cyfarfodydd hyn eu paratoi'n brydlon a'u rhannu â charcharorion ac roedd tystiolaeth bod newidiadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i hynny.

4.16 Roedd carcharorion yn fwy cadarnhaol nag mewn carchardai tebyg ynghylch cael ymateb i geisiadau o fewn saith diwrnod, ond gwelsom nad oedd rhai ceisiadau wedi cael ymateb prydlon. Er bod pob cais yn cael ei olrhain wrth adael yr adain, ychydig iawn oedd yn cael eu cofnodi pan na allent hwy na'r rheolwyr fod yn hyderus yr ymdriniwyd â phob un ohonynt.

4.17 Roedd carcharorion yn gallu cael gafael ar ffurflenni cwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg. Dros y 12 mis blaenorol, ymatebwyd yn hwyr i tua 17% o'r cwynion, a oedd yn debyg i'r lefel yn ein hymweliad craffu yn 2020. Roedd diffyg trafodaeth wedi'i chofnodi â charcharorion wrth ymchwilio i gwynion yn ddiffyg ac o bosib yn lleihau trylwyredd yr ymholiad i'r gŵyn. Ond roedd yr ymatebion yn gwrtais ar y cyfan, ac yn canolbwyntio ar y materion a godwyd. Roedd rhan uwch reolwyr yn y broses gwyno yn cynnwys sicrhau ansawdd sampl o gwynion yn eu cyfarfod misol. Roedd y gwaith o ddadansoddi cwynion yn rheolaidd i ganfod patrymau a thueddiadau wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf.

4.18 Roedd carcharorion yn ansicr yn ein harolwg ynghylch a oedd hi'n hawdd cyfathrebu â'u cynrychiolwyr cyfreithiol (52%) neu fynychu ymweliadau cyfreithiol (56%). Roedd ymweliadau cyfreithiol yn cael eu cynnal ar foreau yn ystod yr wythnos mewn bythau preifat. Roedd tair ystafell llys gyda chyswllt fideo ar gael ynghyd â thair o ystafelloedd cyswllt fideo ar gyfer ymgynghoriadau cyfreithiol ac ymgynghoriadau proffesiynol eraill. Sefydlwyd ystafell ar wahân ar gyfer cyfweliadau gyda'r heddlu.

4.19 Yn y llyfrgell, roedd amrywiaeth o destunau cyfreithiol a rheolau a chyfarwyddiadau'r gwasanaeth carchardai. Roedd gan garcharorion fynediad at swyddog gwybodaeth mechnïaeth. Roedd yr wybodaeth ddiweddaraf am gymhwysedd i bleidleisio wedi cael ei rhoi i

garcharorion yn 2020 ac roedd ansicrwydd ynghylch pwy oedd yn gyfrifol am hyn.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a ffydd

Canlyniadau disgwyliedig: Mae dull clir o hyrwyddo cyfle cyfartal, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da. Mae anghenion penodol carcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig penodol (gweler yr Eirfa) ac unrhyw nodweddion lleiafrifol eraill yn cael eu cydnabod a'u trin. Mae carcharorion yn gallu arfer eu crefydd. Mae'r gaplaniaeth yn chwarae rhan lawn ym mywyd y carchar ac yn cyfrannu at ofal, cefnogaeth ac adsefydlu cyffredinol carcharorion.

### Rheolaeth strategol

4.20 Roedd y gwaith o oruchwylio a rheoli cydraddoldeb wedi gwella ac wedi cael ei flaenoriaethu'n briodol. Roedd y strategaeth yn gyfredol ac roedd uwch reolwr wedi cael ei enwi fel arweinydd ar gyfer y rhan fwyaf o grwpiau nodweddion gwarchodedig, ac roedd hefyd yn gyfrifol am gynnal ymgynghoriadau.

4.21 Roedd cyfarfodydd cydraddoldeb yn cael eu cynnal aml i adolygu data o bob rhan o'r carchar ac roedd nifer dda yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn. Ymchwiliwyd i ddata a oedd yn awgrymu anghymesuredd ac roedd yr achosion hyn yn cael sylw'n brydlon. Roedd arweinwyr yn monitro camau gweithredu dilynol drwy'r cynllun gweithredu cydraddoldeb. Yn ein harolwg, ar y cyfan nid oedd carcharorion â nodweddion gwarchodedig yn ymateb yn fwy negyddol na charcharorion eraill.

4.22 Roedd deg ffurflen adrodd am ddigwyddiadau gwahaniaethu wedi cael eu cyflwyno gan garcharorion yn ystod y flwyddyn flaenorol. Ymchwiliwyd yn weddol dda i'r rhan fwyaf ohonynt ac ymdriniwyd â hwy o fewn amser. Roedd y rhan fwyaf o ymchwiliadau'n cynnwys cyfweliadau gyda'r holl bartïon o dan sylw cyn dod i gasgliad cytbwys am y digwyddiad, a oedd yn gadarnhaol. Roedd sicrwydd bod uwch arweinwyr yn ymchwilio i wahaniaethu'n dda iawn ac adolygodd Ymddiriedolaeth Zahid Mubarek yr holl adroddiadau ar wahaniaethu a darparu goruchwyliaeth allanol ddefnyddiol a oedd yn sail i arferion da.

### Nodweddion gwarchodedig

4.23 Roedd grwpiau ffocws ar gyfer carcharorion â nodweddion gwarchodedig wedi'u trefnu drwy gydol y flwyddyn. Roeddent yn cael eu hysbysebu'n dda ac roedd nifer dda yn bresennol. Fodd bynnag, roedd canlyniadau'r grwpiau ffocws yn amrywio yn ôl sgiliau'r unigolyn a oedd yn hwyluso'r grŵp. Roedd cofnodion nifer o grwpiau'n nodi materion pwysig yr oedd carcharorion wedi'u codi nad oeddent wedi cael eu harchwilio'n llawn na'u trosi'n gamau i'w cymryd. Dywedodd rhai carcharorion a oedd wedi mynychu grwpiau ffocws wrthym nad oeddent yn gweld fawr o newid cadarnhaol o ganlyniad a'u bod yn teimlo bod y grwpiau'n ddibwrpas.

4.24 Roedd nifer fach o garcharorion ag anableddau corfforol angen mynediad ar gyfer cadair olwyn. Roedd cell wedi'i haddasu ar gael ar gyfer un carcharor. Nid oedd un carcharor wedi gallu mynd i'r gawod ers peth amser ac roedd rhai carcharorion yn cael trafferth mynd i mewn ac allan o'u celloedd oherwydd bod eu cadeiriau olwyn yn rhy lydan i fynd drwy ddrysau'r celloedd. Fe wnaethom godi hyn gydag arweinwyr a oedd wedi ymrwymo i wneud atgyfeiriadau gofal cymdeithasol, archebu cadeiriau olwyn culach i wella hygyrchedd drwy fframiau drysau a dod o hyd i ateb i sicrhau bod carcharorion a oedd o dan anfantais annheg yn cael cawod bob dydd.

4.25 Roedd llai na 10% o garcharorion yn dod o gymunedau du ac ethnig leiafrifol. Roedd y swyddog cydraddoldeb wedi creu cysylltiadau creadigol i annog arweinwyr cymunedol i ddod i'r carchar i roi cyflwyniadau a chefnogi a dathlu digwyddiadau diwylliannol gyda charcharorion. Roedd dyddiadur o ddigwyddiadau dathlu wedi cael ei lunio a oedd yn cynnwys yr holl grwpiau nodweddion gwarchodedig. Ym mis Tachwedd 2022 roedd canolfan gymunedol Affrica Abertawe wedi cynnal digwyddiad a oedd yn cynnwys dysgu sgiliau canu, drymiau Affricanaidd ac adrodd straeon, ac roedd y carcharorion a oedd yn bresennol wedi gwerthfawrogi hyn. Adeg ein harolygiad, roedd y tîm yn trefnu rhagor o gydweithio gyda'r bwriad i ysgogi.

4.26 Roedd gwaith i ddeall a mynd i'r afael ag argymhellion thematig diweddar HMIP ar gyfer hil ar y gweill. Roedd arweinwyr wedi meddwl yn greadigol am sut i gael asiantaethau cymunedol i ymgysylltu, cynyddu ymwybyddiaeth ddiwylliannol a defnyddio bwyd i wella'r berthynas rhwng y nifer gymharol fach o garcharorion a staff du neu ethnig leiafrifol. Roedd hon yn fenter ddiddorol, ond roedd yn rhy gynnar i asesu ei heffaith.

4.27 Nid oedd unrhyw garcharorion trawsryweddol adeg yr arolygiad. Roedd polisi lleol priodol ar gael ac roedd staff yn y dderbynfa a'r ganolfan noson gyntaf yn gyfarwydd ag ef.

4.28 Roedd y gefnogaeth i garcharorion LGBT yn dda iawn. Roedd y fforymau ar gyfer y carcharorion hyn yn cael eu rheoli'n arbennig o dda ac roeddent yn cynnwys casglu barn carcharorion ar ddathlu digwyddiadau allweddol fel Pride/Balchder ar draws y carchar. Roedd rhifau cymorth rhadffôn defnyddiol wedi cael eu cofnodi ar ffonau pin carcharorion ac wedi cael eu hysbysebu'n dda ledled y carchar. Dywedodd carcharorion wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda iawn ac y gallent siarad â staff os oedd ganddynt bryderon.

4.29 Roedd y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n dda ac roedd carcharorion yn gallu cael gafael ar wasanaethau yn Gymraeg. Roedd arwyddion o gwmpas y carchar yn Gymraeg ac yn Saesneg ac roedd mentor cymheiriaid Cymraeg yn rhedeg clwb siarad Cymraeg y carcharorion (gweler paragraff 5.28). Roedd llawer o'r compactau pwysig y gofynnwyd i garcharorion eu darllen a'u llofnodi ar ôl cyrraedd yn cael eu darparu yn Gymraeg.

### Ffydd a chrefydd

4.30 Roedd mynediad at gydaddoli yn dda iawn. Roedd y gaplaniaeth yn cynnwys staff llawn bron iawn ac roedd stoc dda o lyfrau ac arteffactau crefyddol ar gyfer carcharorion. Yn ein harolwg, dywedodd 55% o garcharorion fod ganddynt grefydd, roedd 80% ohonynt yn teimlo bod eu credoau crefyddol yn cael eu parchu ac 81% yn teimlo y gallent fynychu gwasanaethau crefyddol pe baent yn dymuno gwneud hynny. Roedd gan y rhan fwyaf o'r carcharorion y buom yn siarad â nhw ddillad crefyddol, matiau gweddïo a llyfrau a dywedon nhw wrthym fod gwasanaethau corfforaethol wythnosol yn dechrau ac yn gorffen yn brydlon.

4.31 Roedd y carcharorion yn adnabod y caplaniaid yn dda (yn ôl eu henwau cyntaf yn aml) ac yn eu gweld yn aml o gwmpas y carchar. Yr unig enghraifft o fynediad gwael a welsom oedd yn yr uned wahanu, lle'r oedd caplaniaid yn siarad â charcharorion drwy'r drws (gweler paragraff 3.34).

## Iechyd, lles a gofal cymdeithasol

Canlyniadau disgwyliedig: Mae cleifion yn derbyn gofal gan wasanaethau sy'n asesu ac yn diwallu eu hanghenion iechyd, gofal cymdeithasol a defnyddio sylweddau ac sy'n hyrwyddo parhad gofal pan gânt eu rhyddhau. Mae safon y ddarpariaeth yn debyg i'r hyn y gallai cleifion ddisgwyl ei gael mewn mannau eraill yn y gymuned.

### Strategaeth, llywodraethu clinigol a phartneriaethau

4.32 Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, Dyfodol a Time for Teeth oedd y darparwyr iechyd. Roedd gwasanaethau iechyd wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf er gwaethaf swyddi gwag. Roedd staff ar gael 24 awr y dydd, yn gweithio'n effeithiol ac yn garedig tuag at garcharorion.

4.33 Datblygodd arweinwyr profiadol gynlluniau gwella, a ddatblygwyd ar ôl nifer o adolygiadau systematig ac a oedd yn cynnwys yr holl bartneriaid, gan gynnwys Arolygiaeth Iechyd Cymru.

4.34 Roedd cyfarfodydd gweithredol lleol yn dangos y cydweithio da rhwng y tîm iechyd a'r carchar ond nid oedd llawer o wybodaeth ar gael am berfformiad yr holl bartneriaid. Roedd pwysau staff yn golygu bod yn rhaid i uwch staff iechyd gyflawni gwaith gweithredol yn ogystal â'u cyfrifoldebau arwain, a oedd yn peryglu goruchwyliaeth leol.

4.35 Roedd system gwyno gyfrinachol ar gael i garcharorion ac roedd yr ymatebion yn cael eu cyflwyno'n amserol, roeddent yn gwrtais ac, os oedd angen, yn ymddiheuro. Nodwyd tueddiadau a themâu o gwynion ac adborth gan gleifion, ond roedd angen gwneud rhagor o waith i ddefnyddio'r wybodaeth hon i wella gwasanaethau. Roedd yr hyn a ddysgwyd o adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael ei rannu wrth drosglwyddo staff yn ddyddiol ac yn y cofnod dyddiol.

4.36 Roedd yr ystafelloedd clinigol yn lân ond ychydig iawn o finiau gwastraff clinigol oedd wedi'u labelu ac nid oedd amserlenni glanhau. Cafodd hyn ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.

4.37 Ni welsom unrhyw ymatebion i argyfwng, ond roedd gan y tîm staff cymwys i ymateb. Roedd bagiau argyfwng ar gael ac roedd y diffibrilwyr yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o archwiliadau rheoli ac roedd rhai dyddiadau dod i ben wedi cael eu methu.

4.38 Roedd tystiolaeth o gadw cofnodion a rhannu gwybodaeth yn dda, ond nid oedd llawer o'r cofnodion yn ddigon manwl ac roedd angen eu gwella. Roedd yr wybodaeth yn brin ac nid oedd y diagnosis, y cynlluniau ar gyfer triniaeth a'r rhesymeg dros roi presgripsiwn bob amser yn amlwg. Nid oedd llwythi achosion, tasgau a llyfrau apwyntiadau bob amser yn cael eu defnyddio, a oedd yn gyfle a gollwyd, ac nid oeddent yn adlewyrchu safonau cenedlaethol o ran cadw cofnodion clinigol.

## Hybu iechyd a lles

4.39 Roedd y strategaeth iechyd a lles newydd yn nodi llwybrau gwella iechyd ar gyfer carcharorion. Roedd cylch gorchwyl wedi'i ddatblygu a sefydlwyd grŵp llywio a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr staff y carchar. Roedd cyfarfod wedi cael ei gynnal ym mis Ionawr 2023 lle'r oedd y tri chynllun cyntaf wedi cael eu hamlinellu, a oedd yn dda.

4.40 Roedd gwybodaeth iechyd ar gael yn y dderbynfa ar gyfer carcharorion a oedd yn cyrraedd a'r rheini a oedd yn cael eu rhyddhau. Ond ychydig iawn o wybodaeth oedd ar gael am wasanaethau iechyd yn y carchar. Roedd taflenni hybu iechyd ar gael yn y rhan fwyaf o fannau'r carchar ac roedd llawer o wybodaeth gyswllt ddefnyddiol ar gyfer carcharorion sy'n cael eu rhyddhau yng Nghymru.

4.41 Roedd rhaglenni sgrinio a brechu ar gael a chafodd y llwybr trin hepatitis ei hwyluso ar y safle. Roedd staff nyrsio'n sgrinio ac yn trin iechyd rhywiol ac roedd yr amseroedd aros yn fyr, gan gynnwys mynediad at ofal arbenigol allanol.

4.42 Gellid dangos mesurau rheoli brigiad o achosion, ond nid oedd polisi safle-benodol ar gael yn ystod ein harolygiad. Byddai gwybodaeth hygyrch am glefydau hysbysadwy, cynlluniau wrth gefn lleol a manylion cyswllt wedi bod o fudd i staff.

## Gwasanaethau gofal sylfaenol a chleifion mewnol

4.43 Er gwaethaf prinder staff, roedd nyrsys yn gweithio'n galed i ddarparu ystod dda o ymyriadau a thriniaethau nyrsio yn eu clinigau ac roedd y carcharorion yn gadarnhaol am y gofal a gawsant yn Abertawe. Adlewyrchwyd hyn yn ein harolwg, pan ddywedodd 62% fod ansawdd y gofal nyrsio yn dda neu'n dda iawn o'i gymharu â 49% mewn carchardai tebyg. Dywedodd carcharorion wrthym nad oedd hi mor hawdd gweld meddyg teulu ond roedd amseroedd aros meddygon teulu yn ymddangos yn fyr iawn, ac roedd canlyniadau ein harolwg wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf.

4.44 Roedd pob carcharor newydd yn cael ei weld gan weithiwr iechyd proffesiynol ac roedd y rhan fwyaf yn cael eu cyfeirio am gymorth. Nid oedd rhai cleifion a oedd â chlefydau cronig bob amser yn cael eu rhoi ar y rhestr aros am adolygiad. Cafodd cleifion diabetig eu nodi mewn adroddiadau fferylliaeth a chafodd pawb a oedd angen presgripsiwn eu cyfeirio at bresgripsiynydd i gael presgripsiwn ar unwaith. Roedd sgrinio eilaidd yn cael ei gynnig ac roedd yn ymddangos ei fod yn cael ei gynnal yn unol â'r canllawiau cenedlaethol, er nad oedd unrhyw graffu ar hyn.

4.45 Roedd gwasanaeth optometreg newydd wedi'i sefydlu ac roedd yn rheoli'r ôl-groniad. Roedd adolygiadau o gleifion diabetig a phobl dros 50 oed wedi cael eu cynnal yn ystod pandemig COVID i wneud yn siŵr bod annormaleddau'n cael eu canfod. Roedd sesiynau ffisiotherapi yn cael eu cynnal yn y gampfa, a oedd yn enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth.

4.46 Nid oedd polisi gofal lliniarol ond roedd tystiolaeth o berthynas waith dda rhwng y darparwr iechyd a'r meddyg ymgynghorol gofal lliniarol lleol.

4.47 Roedd nifer fawr o garcharorion yn cyrraedd gydag anghenion iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a rheoli poen, a oedd yn effeithio ar bob maes presgripsiynu. Roedd 75% o garcharorion ar feddyginiaeth. Roedd 31% o'r rhain ar feddyginiaeth opiadau; 10% ar Pregabalin neu gabapentin, meddyginiaeth sy'n tawelu ar gyfer rheoli poen; roedd 25% yn cael presgripsiwn ar gyfer Mirtazapine, meddyginiaeth gwrth-iselder; ac roedd 21% yn cael presgripsiwn ar gyfer Promethazine, meddyginiaeth sy'n tawelu. Ychydig iawn o waith dadansoddi neu gadw golwg oedd yna ar dueddiadau presgripsiynu ac roedd angen dull mwy cynhwysfawr ac amlddisgyblaethol.

4.48 Roedd y gwaith o reoli apwyntiadau allanol mewn ysbytai yn dda ac roedd y ddarpariaeth yn ddigonol. Nid oedd y gwaith o gadw golwg ar atgyfeiriadau a allai fod wedi mynd ar goll yn ddigon da.

## Gofal cymdeithasol

4.49 Roedd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diweddar rhwng yr awdurdod lleol a'r carchar a oedd yn disgrifio'r llwybr ar gyfer carcharorion yr oedd angen eu hatgyfeirio at yr awdurdod lleol er mwyn cael asesiad neu er mwyn cael cyfarpar. Fodd bynnag, nid oedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys manylion yr un pwynt cyswllt ar gyfer cofnodi atgyfeiriadau ac nid oedd y carchar na'r awdurdod lleol yn gwneud gwaith olrhain cynhwysfawr o hyd, er gwaethaf ein canfyddiadau yn ein hymweliad craffu yn 2020.

4.50 Disgrifiodd nifer o staff drefn ddiogelu glir ar gyfer atgyfeiriadau gofal cymdeithasol a oedd yn galw am adroddiad gwybodaeth diogelwch. Roedd staff eraill yn defnyddio'r wybodaeth yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i atgyfeirio'n uniongyrchol at yr awdurdod lleol, gan osgoi unrhyw gofnod canolog. Nid oedd un pwynt cyswllt i atal rhannu gwybodaeth bersonol am garcharorion yn ddiangen.

4.51 Nid oedd arweinydd yr awdurdod lleol wedi darparu gwybodaeth atgyfeirio gynhwysfawr, nid oedd yn bresennol yng nghyfarfodydd bwrdd y bartneriaeth yn gyson ac ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau. Fe wnaethom siarad â charcharorion ag anghenion gofal cymdeithasol a chyfarpar a oedd yn fodlon, ond fe wnaethom hefyd ganfod dau garcharor nad oedd eu hanghenion wedi cael eu diwallu. Cafodd hyn ei ddatrys, ond roedd yn tynnu sylw at wendidau yn y prosesau derbyn ac atgyfeirio.

4.52 Roedd cefnogaeth gan gymheiriaid ar gael ar yr adain cyn-filwyr ac roedd yn gweithio'n dda.

**Gofal iechyd meddwl**

4.53 Roedd y gwasanaeth iechyd meddwl yn cynnwys iechyd meddwl gofal sylfaenol, tîm argyfwng ac ymyrryd a thîm iechyd meddwl mewnol (MHIT) ar gyfer y rheini sydd â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a pharhaus. Roedd y timau'n amlddisgyblaethol ac wedi mabwysiadu dull gofal fesul cam.

4.54 Roedd anghenion iechyd meddwl yn cael eu hasesu ar unwaith ar ôl cyrraedd a gallai cleifion atgyfeirio eu hunain neu gael eu hatgyfeirio gan staff ar unrhyw adeg. Roedd atgyfeiriadau at y tîm argyfwng yn cael eu gweld o fewn 24 awr. Roedd cyfarfod un pwynt mynediad yn cael ei gynnal bob wythnos ar gyfer y timau i drafod atgyfeiriadau newydd, anghenion parhaus cleifion a rhyddhau cleifion, ac roedd cynrychiolwyr carcharu mwy diogel yn mynychu hefyd. Roedd y Tîm Iechyd Meddwl Mewnol wedi gweld atgyfeiriadau brys o fewn tri diwrnod gwaith a gallai atgyfeiriadau nad oeddent yn rhai brys gymryd hyd at 10 diwrnod gwaith.

4.55 Roedd y gwasanaeth argyfwng yn gweithredu saith diwrnod yr wythnos. Roedd y tîm wedi mynd i'r holl adolygiadau ACCT, y system rheoli achosion ar gyfer carcharorion sydd mewn perygl o hunanladdiad neu hunan-niweidio, wedi gweld unrhyw garcharor mewn argyfwng ac wedi cynnig ymyriadau priodol gan gynnwys sesiynau ailbrosesu a dadsensiteiddio drwy symud y llygaid (EMDR), sesiynau cwnsela a therapi cŵn.

4.56 Roedd staff iechyd meddwl sylfaenol yn cynnig sesiynau un i un i gleifion gyda gorbryder ysgafn i gymedrol neu hwyliau isel ac roedd un sesiwn seiciatreg yr wythnos. Nid oedd gan y tîm hwn unrhyw lwyth achosion oherwydd pwysau staff ac roedd y cyswllt â chleifion yn fyrhoedlog. Ychydig iawn o gynlluniau gofal oedd ar gael ac roedd cofnodion clinigol yn brin. Roedd hyn yn creu ansicrwydd ynghylch eu gofal ymysg cleifion ac ymysg staff am nad oeddent yn gwybod yn sicr pwy oedd yn gyfrifol am rai cleifion. Roedd seicolegydd cynorthwyol yn gweithio gyda charcharorion a oedd wedi cael anaf trawmatig neu anaf i'r ymennydd, a oedd yn gynllun cadarnhaol.

4.57 Ar y cyfan, roedd y berthynas rhwng staff y carchar a staff gofal iechyd yn gadarnhaol, ond ni chafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ei ddarparu.

4.58 Adeg yr arolygiad, roedd y Tîm Iechyd Meddwl Mewnol yn cefnogi 16 o gleifion â chyflyrau iechyd meddwl difrifol a pharhaus ac anghenion niwroamrywiaeth. Nid oedd cleifion tymor hwy yn gallu cael gafael ar therapïau grŵp na seicolegol.

4.59 Roedd adolygiadau presgripsiynu a monitro iechyd yn cael eu cwblhau'n rheolaidd ar gyfer cleifion a oedd yn cael a meddyginiaethau gwrthseicotig a sefydlogi hwyliau. Roedd y cofnodion clinigol a archwiliwyd gennym yn glir ac yn dangos bod asesiadau risg yn cael eu defnyddio a bod yna ddull amlddisgyblaethol o lunio cynlluniau gofal. Fodd bynnag, nid oedd llyfrau apwyntiadau a'r swyddogaeth llwyth achosion yn cael eu defnyddio yn y cofnod electronig, a oedd yn golygu y gallai timau staff eraill golli gwybodaeth allweddol.

4.60 Roedd y Tîm Iechyd Meddwl Mewnol wedi helpu cleifion i gynllunio ar gyfer cael eu rhyddhau drwy gysylltu â'u timau cymunedol i gael parhad â'r cymorth.

4.61 Trosglwyddwyd saith claf i ysbytai iechyd meddwl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystod y 12 mis blaenorol, i gyd o fewn y canllaw presennol o 28 diwrnod. Fodd bynnag, nid oeddem yn hyderus bod y canllaw hwn yn cael ei olrhain yn effeithiol ar gyfer pob claf. Adeg yr arolygiad, roedd un carcharor wedi torri'r canllaw trosglwyddo ac roedd yn parhau i aros, a oedd yn annerbyniol.

### Triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau

4.62 Darparwyd gwasanaeth camddefnyddio sylweddau integredig gan Dyfodol, a oedd yn darparu ymyriadau seicogymdeithasol, a Bae Abertawe oedd yn darparu gwasanaethau clinigol. Roedd cyfarfodydd lleol rheolaidd yn cefnogi'r cynllun gweithredu a'r strategaeth ar gyffuriau ac alcohol ar y cyd.

4.63 Roedd carcharorion a oedd yn cyrraedd a hwythau â phroblemau cyffuriau ac alcohol yn cael eu nodi'n brydlon ac yn cael asesiad a chefnogaeth drylwyr gan y tîm gofal iechyd sylfaenol.

4.64 Gallai carcharorion a oedd yn gaeth i opiadau, a oedd yn cyrraedd gyda phresgripsiwn cymunedol wedi'i gadarnhau, aros ar y presgripsiwn hwnnw. Roedd y rheini nad oeddent wedi cael meddyginiaeth ar bresgripsiwn ar y noson gyntaf yn cael presgripsiwn ar gyfer eu symptomau ac roedd meddyg yn adolygu hynny ar y diwrnod canlynol. Roedd arsylwadau clinigol ar gyfer cleifion sy'n dadwenwyno o alcohol neu gyffuriau yn parhau yn ystod y nos, o dan ofal nyrsys yn yr uned gynefino.

4.65 Gwelodd Dyfodol yr holl garcharorion newydd ar eu hail ddiwrnod, er mwyn asesu anghenion cymorth a rhoi cyngor ar leihau niwed. Dyrannwyd gweithiwr achos i gleifion a oedd yn derbyn meddyginiaeth. Adeg yr arolygiad, roedd 27% o'r boblogaeth yn cymryd meddyginiaeth amnewid opiadau. Roedd presgripsiynu'n hyblyg, yn unol â chanllawiau cenedlaethol, ac yn cynnwys adolygiadau 13 wythnos.

4.66 Roedd y tîm yn ymgysylltu'n frwd â 57% o'r boblogaeth. Fe wnaethant ddarparu amrywiaeth eang o ymyriadau adfer i leihau niwed, gan

gynnwys un grŵp adfer am wyth wythnos ar y tro ar gyfer 10 claf. Roeddent hefyd yn cynnig gwaith un i un a gwaith yn y celloedd.

4.67 Roedd Dyfodol yn defnyddio cofnodion electronig y Gwasanaeth Carchardai a PalBase9, a oedd yn sail i waith rheoli risg yn effeithiol a chynllunio ar gyfer rhyddhau. Roedd y sampl o gofnodion seicogymdeithasol a archwiliwyd gennym yn glir ac roedd gan bob un ffurflenni caniatâd unigol a chynlluniau gofal i ddiwallu anghenion y claf. Nid oedd Dyfodol yn gallu gweld cofnodion clinigol cleifion, a oedd yn peri risg.

4.68 Roedd adain G yn gweithredu fel cymhelliant i fyw heb sylweddau lle gallai carcharorion wneud cais i ddilyn y rhaglen 12 cam i ddod dros eu dibyniaeth. Yn ein harolwg, roedd cleifion yn arbennig o ganmoliaethus am yr ymyriad hwn a'r canlyniadau cadarnhaol roeddent wedi'u profi.

4.69 Roedd y gwaith cynllunio cyn rhyddhau yn dda. Roedd yn canolbwyntio ar atal llithro'n ôl, lleihau niwed a thriniaeth barhaus os oedd angen, gan atgyfeirio at wasanaethau cymunedol. Roedd Naloxone (cyfrwng gwrthdroi opiadau) ar gael ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau, ond roedd y nifer a oedd yn ei ddefnyddio yn isel. Roedd Dyfodol yn cyflwyno hyfforddiant ar ddefnyddio Naloxone.

**Optimeiddio meddyginiaethau a gwasanaethau fferyllol**

4.70 Roedd meddyginiaethau'n cael eu rheoli o'r fferyllfa fewnol, a oedd ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd meddyginiaethau'n cael eu rhoi i garcharorion yn briodol.

4.71 Roedd presgripsiynu a rhoi meddyginiaethau yn cael eu cofnodi ar SystmOne (cofnodion clinigol electronig) a staff nyrsio oedd yn cysoni'r rhain ar gyfer newydd-ddyfodiaid. Roedd asesiadau risg ar gyfer meddiant ar waith ar gyfer y rhan fwyaf o gleifion. Adeg yr arolygiad, roedd 46% o gleifion yn cael eu meddyginiaethau yn eu meddiant eu hunain, er nad oedd presgripsiynu bob amser yn cadw at y cyfnod a nodwyd yn yr asesiad risg. Ychydig o gysylltiad oedd gan staff y fferyllfa â'r asesiadau risg ac nid oeddent yn herio presgripsiynau pan na lynwyd wrth yr asesiadau. Nid oedd yn glir pa mor aml roedd asesiadau risg yn cael eu hadolygu.

4.72 Nyrsys oedd yn arwain y gwaith o roi meddyginiaethau o dair hatsh, dair gwaith y dydd, gyda chymorth technegydd fferyllfa. Prin oedd y ddarpariaeth ar gyfer rhoi meddyginiaethau yn ystod y nos. Roedd y rhan fwyaf o feddyginiaethau'n cael eu cyflenwi fel meddyginiaethau i gleifion wedi'u henwi, wedi'u labelu'n briodol ac yn cynnwys llwybr archwilio rhoi cyffuriau ar bresgripsiwn. Roedd eraill yn cael eu rhoi o'r stoc, ac nid oedd hyn yn arfer da. Roedd cleifion yn cael cyngor am eu meddyginiaethau wrth ddod i'r hatsh. Nid oedd y gwaith o fynd ar drywydd cleifion a oedd wedi methu dosau yn gadarn ac fe welsom fod dosau o feddyginiaethau pwysig wedi'u methu.

4.73 Roedd swyddogion carchar yn rheoli hatshys meddyginiaeth yn briodol, ac roedd cyfrinachedd yn cael ei gynnal. Roedd y broses o storio meddyginiaethau'n ddigonol, er ein bod wedi nodi bod camgymeriadau

wedi cael eu gwneud oherwydd arferion storio di-fudd nad oeddent wedi cael eu cywiro.

4.74 Roedd amrywiaeth o feddyginiaethau brys ar gael i gleifion gael gafael ar feddyginiaethau y tu allan i oriau. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gysoni'n cael ei wneud i sicrhau bod cyfrif am feddyginiaethau, a oedd yn peri risgiau.

4.75 Roedd polisi meddyginiaethau yn ôl disgresiwn yn caniatáu cyflenwi meddyginiaethau ar gyfer hunanofal heb fod angen gweld meddyg.

4.76 Roedd technegwyr fferyllfa yn cwblhau hyfforddiant ychwanegol a allai gynyddu capasiti'r fferyllydd i gefnogi'r gwaith o reoli cyflyrau cronig ac i gynnig clinigau neu adolygu'r meddyginiaethau i helpu cleifion i wneud y gorau o'u meddyginiaethau.

4.77 Roedd pobl yn cael gwerth o leiaf wythnos o feddyginiaeth pan oeddent yn gadael y sefydliad. Roedd y fferyllydd-bresgripsiynydd annibynnol yn rheoli'r broses hon yn dda. Nid oedd y drefn ar gyfer cyflenwi meddyginiaethau i'r rhai a oedd yn cael eu rhyddhau'n annisgwyl yn gadarn.

4.78 Roedd cyffuriau rheoledig yn cael eu rheoli'n dda ac yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Roedd meddyginiaethau'n cael eu storio a'u cludo'n ddiogel ac roedd meddyginiaethau tymheredd cyson yn cael eu cadw mewn oergelloedd addas, a oedd yn cael eu monitro. Roedd cyfarfodydd rheoli meddyginiaethau'n cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn, ond nid oedd y cofnodion yn cynnwys data am bresgripsiynu nac am ddefnyddio meddyginiaethau y gellir eu masnachu, felly ychydig iawn o oruchwylio oedd yna.

### Gwasanaethau deintyddol ac iechyd y geg

4.79 Roedd Time for Teeth yn cyflwyno ystod lawn o driniaethau'r GIG ar ddydd Mercher a dydd Gwener, a hynny mewn ystafell ddeintyddol fach ond wedi'i threfnu'n dda. Roedd yr amseroedd aros am apwyntiad yn rhesymol, gydag amseroedd aros o rhwng tair a chwe wythnos ar gyfer gofal arferol. Roedd ymdrechion wedi'u gwneud i leihau nifer y rhai a oedd yn methu apwyntiadau, ac roedd hynny'n amlwg wedi arwain at wella effeithlonrwydd y clinigau.

4.80 Oherwydd agosrwydd y clinigau, gallai cleifion a oedd yn datblygu poen ar nos Wener aros pum diwrnod am apwyntiad deintyddol, a oedd yn rhy hir. Gallai carcharorion gael cymorth lleddfu poen dros y cownter yn ystod y cyfnod hwn, ac roedd y tîm deintyddol yn rhoi blaenoriaeth i adolygu'r cleifion hyn ar eu hymweliad nesaf.

4.81 Rhoddwyd cyngor ar wella iechyd y geg yn ystod apwyntiadau deintyddol, ond nid oedd taflenni cyngor yn y ddeintyddfa ar broblemau deintyddol cyffredin a hunanofal, ac roedd hyn yn gyfle a gollwyd. Gallai'r tîm deintyddol roi presgripsiynau pan oeddent ar y safle. Roedd presgripsiynydd arall yn cael ei ddefnyddio pan nad oedd y tîm ar y safle. Roedd y strwythurau llywodraethu'n gadarn ac roedd y gwaith o gadw cofnodion yn gynhwysfawr. Roedd cwynion yn cael eu cofnodi ac roedd y rhan fwyaf yn ymwneud â mynediad at apwyntiadau. Roedd

posib cael meddyginiaethau brys, ac roeddent o fewn eu dyddiad ac yn cael eu storio'n ddiogel yn y feddygfa. Serch hynny, nid oedd yr holl staff yn gwybod lle'r oeddent yn cael eu cadw. Roedd dogfennau polisi yn gyfredol ac ar gael ar y system TG. Roedd tystysgrifau cynnal a chadw a'r dogfennau sicrwydd priodol ar gael.

# Section 5 Gweithgarwch pwrpasol

**Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy’n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

## Amser allan o’r gell

Canlyniadau disgwyliedig: Mae pob carcharor yn cael digon o amser y tu allan i’r gell (gweler yr Eirfa) ac yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy’n eu helpu i adsefydlu.

5.1 Roedd rheolwyr wedi ymrwymo i sicrhau bod carcharorion yn cael amser i gwblhau tasgau domestig, cymdeithasu â’u cyfoedion a gwneud ymarfer corff bob dydd. Roedd hyn yn rhan o fodel lle’r oedd cymryd rhan mewn gweithgarwch pwrpasol yn cael ei flaenoriaethu a’i wobrwyo. Roedd carcharorion nad oeddent yn gweithio yn cael cyfnodau domestig ar foreau yn ystod yr wythnos ac yna ymarfer corff a chymdeithasu yn y prynhawn. Gallent gael tua dwy awr a hanner allan o’u celloedd bob dydd gydag amser ychwanegol i gasglu prydau bwyd, mynd i apwyntiadau ac ymweliadau. Gallai carcharorion a oedd yn gweithio’n llawn amser dreulio dros saith awr heb eu cloi bob dydd, yn ogystal â chael amser i gasglu eu prydau.

5.2 Roedd y drefn ar gyfer newydd-ddyfodiaid ar adain B yn wael (gweler paragraff 3.6). Roedd carcharorion ar adain C nad oeddent yn gyflogedig yn cael eu cloi yn ystod y bore pan oedd dyfarniadau’n cael eu cynnal. Roedd rheolwyr yn rhoi sylw i ddarparu gweithgarwch ar gyfer y carcharorion hyn yn y boreau.

5.3 Roedd carcharorion mewn gwaith neu addysg amser llawn yn cael cymdeithasu gyda’r nos ar bedwar o ddyddiau’r wythnos a mwy o sesiynau yn y gampfa na charcharorion nad oeddent yn gweithio. Roedd hyn yn gymhelliant iddynt ddefnyddio’u hamser yn gynhyrchiol.

5.4 Roedd posib cwtogi’r drefn mewn rhai amgylchiadau. Cafodd y cymdeithasu gyda’r nos a’r cyfnod ymarfer corff ar gyfer y gweithwyr eu canslo unwaith yn ystod yr arolygiad.

5.5 Roedd y cyfnodau ymarfer corff yn fyr, dim ond 30 munud bob dydd. Hefyd, nid oedd yr iardiau ymarfer corff yn cynnig unrhyw weithgaredd ar wahân i gerdded neu redeg o gwmpas yr iard.



**Iard ymarfer ADF**



**Iard ymarfer CEG**

5.6 Roedd ein harchwiliadau ar y gofrestr yn ystod y diwrnod gwaith craidd yn dangos mai dim ond 8% o garcharorion oedd o dan glo, sy'n llawer llai na'r hyn a welwn mewn carchardai derbyn eraill. Adeg yr archwiliadau, roedd 47% o garcharorion mewn gwaith, addysg neu hyfforddiant ac roedd y gweddill yn y gampfa, yn ymweld â'r llyfrgell, mewn apwyntiadau, yn cael ymweliadau, ar gyfnodau domestig, yn cymdeithasu neu'n gwneud ymarfer corff. Roedd rheolwyr y carchar

wedi cyflwyno eu gwiriadau dyddiol eu hunain i sicrhau bod carcharorion a ddylai fod heb eu cloi allan o’u celloedd.

5.7 Yn ein harolwg, dywedodd mwy o garcharorion nag mewn carchardai tebyg fod staff yn eu hannog i fynychu addysg, hyfforddiant neu waith. Fodd bynnag, nid oedd digon o fannau gweithgarwch i bob carcharor gael ei gyflogi’n llawn amser ac ni chafodd yr holl leoedd gwag a oedd ar gael eu llenwi bob dydd (gweler paragraff 5.30).

5.8 Ar wahân i’r nifer fach o garcharorion a oedd yn gweithio ar ddydd Sadwrn a dydd Sul, roedd y drefn ar y penwythnos yn llawer mwy cyfyngedig i’r rhan fwyaf o garcharorion, gyda dim ond hanner ohonynt heb eu cloi ar unrhyw un adeg. Roeddent yn treulio tua 90 munud ddim o dan glo, ac nid oedd hynny’n ddigon.

5.9 Roedd dau lyfrgellydd rhan-amser yn gweithio yn y llyfrgell, o wasanaeth Llyfrgell Dinas a Sir Abertawe, ac roedd dau gynorthwyydd yn eu cefnogi. Roeddent hwy a’r amgylchedd yn groesawgar. Roedd gan y llyfrgell stoc dda o lyfrau i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, gan gynnwys llyfrau hawdd eu darllen a llyfrau mewn ieithoedd ar wahân i Gymraeg neu Saesneg.




**Llyfrgell**

5.10 Yn ein harolwg, dywedodd 58% o garcharorion y gallent ddefnyddio’r llyfrgell o leiaf unwaith yr wythnos o’i gymharu â 12% yn yr arolygiad blaenorol a 29% mewn carchardai tebyg. Roedd gan bob carcharor amserlen i fynd i’r llyfrgell bob wythnos a dywedodd staff y llyfrgell eu bod yn cael cefnogaeth dda gan arweinwyr i wneud yn siŵr bod carcharorion yn cael y cyfle hwn. Nid oedd modd mynd i'r llyfrgell ar y penwythnos na min nos, er bod gan bob adain stoc fach o lyfrau.

5.11 Roedd arweinwyr wedi datblygu strategaeth ddarllen ar gyfer y carchar. Roedd hyn yn cynnwys darparu llyfrau rhodd i bob plentyn a oedd wedi bod ar ymweliad teuluol, llyfrau i garcharorion eu darllen i'w plant yn ystod galwadau fideo diogel (gweler yr Eirfa) neu yn y grŵp plant bach, digwyddiadau seiliedig ar thema yn y llyfrgell a chlwb llyfrau ar gyfer carcharorion (ac un ar gyfer staff). Roedd cynllun mentora Ymddiriedolaeth Shannon ar gael (mae'n darparu adnoddau cynllun darllen dan arweiniad cymheiriaid a hyfforddiant i garchardai).

5.12 Roedd y tîm addysg gorfforol yn dda am ddefnyddio'r adnoddau a oedd ar gael, a oedd yn cynnwys neuadd chwaraeon, offer codi pwysau a chardiofasgwlaidd wedi'u gwasgaru ar draws dau gyfleuster dan do a llain fach yn yr awyr agored. Roedd yr olaf yng nghanol y cyfleuster ymarfer corff mwy ac nid oedd modd ei ddefnyddio pan oedd hi'n amser ymarfer corff, a oedd yn cyfyngu ar ei ddefnydd. Roedd cawodydd yn y gampfa newydd yn cael eu hailwampio ac roedd y rheini yn y gampfa hŷn yn lân ond nid oedd parwydydd rhyngddynt i roi preifatrwydd wrth gael cawod.




**Yr hen gampfa**

5.13 Roedd staff y gampfa yn cadw cofnodion da am bresenoldeb, gan gynnwys gwirio am unrhyw anghymesuredd o ran mynediad i garcharorion o gefndir du ac ethnig leiafrifol. Gallai carcharorion a oedd yn gweithio'n llawn amser fynychu hyd at dair sesiwn yn y gampfa bob wythnos. Gallai eraill fynychu unwaith yr wythnos.

5.14 Roedd cymwysterau a chysylltiadau â phartneriaid cymunedol yn dal i gael eu hailddatblygu ers y pandemig ond roedd darpariaeth ar gyfer anghenion arbenigol. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau ar gyfer carcharorion hŷn, cyn-filwyr a charcharorion ag angen unigol am gampfa adferol ar gyfer eu lles corfforol neu feddyliol. Roedd ffisiotherapydd yn bresennol yn rheolaidd hefyd.

## Addysg, sgiliau a gwaith

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Cynhelir y rhan hon o'r arolygiad gan arolygwyr Estyn gan ddefnyddio fframwaith arolygu cyffredin Estyn. Mae hyn yn sicrhau bod carchardai'n cael eu dal yn atebol i'r un safon perfformiad â cholegau addysg bellach yn y gymuned.

> Canlyniadau disgwyliedig: Gall pob carcharor gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n bwrpasol, sydd o fudd iddynt ac sy'n gwella eu cyflogadwyedd. Anogir a galluogir carcharorion i ddysgu yn ystod ac ar ôl eu dedfryd. Mae'r ddarpariaeth dysgu, sgiliau a gwaith o safon dda ac yn effeithiol o ran diwallu anghenion pob carcharor.

5.15 Gwnaeth Estyn yr asesiadau canlynol am y ddarpariaeth dysgu, sgiliau a gwaith:

- Safonau: Da
- Lles ac agweddau at ddysgu: Da
- Profiadau dysgu ac addysgu: Digonol
- Gofal, cefnogaeth ac arweiniad: Da
- Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol

### Safonau

5.16 Roedd llawer o ddysgwyr wedi ennill cymwysterau mewn sgiliau ar gyfradd dda a oedd yn cyfateb yn briodol i'w mannau cychwyn.

5.17 Mewn dosbarthiadau sgiliau, gwnaeth y rhan fwyaf o ddysgwyr gynnydd priodol o'u mannau cychwyn wrth ddatblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd neu lythrennedd digidol. Roeddent yn gwybod beth oedd eu cryfderau a'u gwendidau a beth roedd angen iddynt ei wneud i wella. Er enghraifft, mewn dosbarthiadau llythrennedd, roedd y dysgwyr yn gweithio ar strwythur brawddegau, sillafu neu ysgrifennu llythyrau. Mewn dosbarthiadau llythrennedd digidol, roedd dysgwyr yn datblygu sgiliau prosesu geiriau sylfaenol neu'n symud ymlaen yn briodol i ddefnyddio taenlenni neu feddalwedd cyflwyniadau.

5.18 Mewn dosbarthiadau ESOL (Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill), roedd dysgwyr â sgiliau Saesneg sylfaenol iawn yn dysgu sut i adnabod ac ynganu'r wyddor Saesneg ac ysgrifennu a sillafu eu henwau.

5.19 Cymerodd nifer fach iawn o ddysgwyr ran yn y rhaglen Camau Cyntaf yn y Gymraeg ar gyfer dechreuwyr a dysgwyr a siaradwyr Cymraeg

sy'n dymuno gloywi eu hiaith, ac roedd nifer fach yn dechrau ennill cymwysterau.

5.20 Roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi dysgu sgiliau galwedigaethol a sgiliau sy'n benodol i ddiwydiant ac wedi ennill cymwysterau mewn darpariaeth alwedigaethol, fel gweithdy Gwasanaethau Glanhau Diwydiannol Prydain neu'r gweithdy adeiladu aml-grefft. Er enghraifft, enillodd dysgwyr gymwysterau mewn glanhau bioberyglon a oedd yn eu galluogi i symud ymlaen i swyddi yn y carchar neu ar ôl cael eu rhyddhau, neu gymwysterau iechyd a diogelwch ym maes adeiladu neu'r cerdyn Cynllun Ardystio a Sgiliau Adeiladu sylfaenol sy'n angenrheidiol i weithio mewn llawer o swyddi yn y diwydiant adeiladu. Ym mis Ionawr 2023, roedd tua 22% o ddysgwyr wedi cael gwaith yr oeddent yn parhau ag ef chwe wythnos ar ôl gadael y ddalfa. Roedd hyn yn cymharu'n dda â chyfleusterau diogel eraill i oedolion yng Nghymru.

5.21 Roedd dysgwyr o gefndiroedd ethnig leiafrifol yn cyfrif am 15% o boblogaeth y carchar. Llwyddodd grwpiau o ddysgwyr o bob ethnigrwydd i ennill cymwysterau ar gyfraddau uwch na dangosyddion perfformiad allweddol y carchar o 70%, er nad oedd y grwpiau 'Asiaidd' ac 'arall' wedi perfformio cystal â'r grwpiau eraill.

5.22 Roedd ychydig o ddysgwyr ar draws y ddarpariaeth hyfforddiant galwedigaethol a gwaith yn dechrau defnyddio offer e-ddysgu ar liniaduron oedd wedi'u cysylltu â mewnrwyd y carchar. Roedd hyn yn helpu dysgwyr i gael gafael ar amrywiaeth addas o ddeunyddiau dysgu a chymwysterau tra oeddent mewn gweithdai. Ond, roedd mynediad at y fewnrwyd yn anghyson oherwydd cysylltedd cyfyngedig ac nid oedd gan ddysgwyr fynediad ym mhob gweithdy neu fan dysgu.

## Lles ac agweddau at ddysgu

5.23 Roedd y rhan fwyaf o garcharorion ar hyfforddiant galwedigaethol a dysgu sgiliau yn gwerthfawrogi gwerth dysgu neu waith yn y carchar i'w hiechyd meddwl a'u lles a'u rhagolygon cyflogaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

5.24 Er bod presenoldeb yn amrywio, roedd y rhan fwyaf o ddysgwyr a fynychodd sesiynau yn y ganolfan addysg neu weithdai galwedigaethol yn dda am gymryd rhan yn eu dysgu. Roedd y dysgwyr yn ymddwyn yn bwyllog ac yn bwrpasol ym mhob sesiwn bron, ac roedd yn amlwg bod eu perthynas â'u hathrawon a'u cyfoedion yn seiliedig ar barch at ei gilydd. Ychydig iawn o ddysgwyr a ddangosodd fawr o ddiddordeb mewn dysgu ac a weithiodd heb frwdfrydedd neu'n araf.

5.25 Roedd llawer o ddysgwyr mewn sesiynau addysg, sgiliau neu waith yn gallu cysylltu'r hyn roeddent yn ei ddysgu mewn dosbarthiadau â deall sut i reoli eu hymddygiad y tu mewn a'r tu allan i'r carchar. Dywedasant eu bod yn datblygu sgiliau gwerthfawr a fyddai'n helpu i leihau aildroseddu yn y dyfodol.

5.26 Roedd y dysgwyr a'r staff yn gwerthfawrogi'r mentoriaid. Cawsant hyfforddiant cynhwysfawr a buont yn helpu athrawon neu'n cefnogi eu cyfoedion i ddysgu a gyda'u lles. Roedd mentoriaid a oedd wedi

gwasanaethu yn y lluoedd arfog yn y gorffennol yn rhoi cymorth defnyddiol i garcharorion ag anghenion ychwanegol ar yr adain, a oedd yn ei chael hi'n anodd addasu i fywyd yn y carchar. Soniodd y mentoriaid eu hunain am yr effaith gadarnhaol roedd bod yn fentor yn ei chael ar eu lles eu hunain.

5.27 Roedd dysgwyr wedi elwa o gymorth ymarferol ar gyfer eu lles a'u hiechyd meddwl. Roedd hyn yn cynnwys cyrsiau rheoli straen neu ddicter pwrpasol, pecynnau tynnu sylw i'w defnyddio ar yr adeiniau ac amrywiaeth o weithgareddau i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a chyflogadwyedd.

5.28 Roedd rhai dysgwyr wedi cymryd rhan mewn cyfleoedd addysg llai ffurfiol a oedd yn cefnogi eu lles, fel gwersi gitâr sylfaenol, neu wedi cymryd rhan mewn sesiwn gymdeithasu yn y Gymraeg bob mis i siarad, ymarfer a datblygu eu Cymraeg.

## Profiadau dysgu ac addysgu

5.29 Roedd ystod briodol o lwybrau addysgol, galwedigaethol a gwaith ar gael i lawer o garcharorion, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol, achrediadau a lefelau mynediad i rywfaint o gyrsiau lefel 2 gyda'r nod o gefnogi cyflogaeth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Roedd carcharorion hefyd yn elwa o fynediad at ddysgu ar-lein a dysgu o bell, gan gynnwys yr hyn a gynigir gan y Brifysgol Agored ac Ymddiriedolaeth Addysg y Carcharorion. Roedd y carchar wedi gweithio'n dda i wella'r ddarpariaeth, ond roedd hi'n rhy gynnar i farnu effaith lawn y mentrau diweddar hyn.

5.30 Ni chafodd lleiafrif o'r mannau dysgu, sgiliau neu waith a oedd ar gael eu dyrannu i garcharorion. I rai, roedd hyn oherwydd oedi o ran cael mynediad at hyfforddiant cynefino ar gyfer addysg, rhestrau aros neu am nad oeddent yn gwybod sut i ganfod eu ffordd drwy'r system.

5.31 Mewn sesiynau cynefino ar gyfer addysg, roedd lefelau llythrennedd a rhifedd a chymhwysedd digidol y dysgwyr yn cael eu hasesu'n briodol. Cawsant gyfle hefyd i gwblhau pecyn ar-lein i nodi unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

5.32 Mewn dosbarthiadau addysg, roedd bron pob tiwtor wedi meithrin cysylltiadau cryf â dysgwyr, yn seiliedig ar barch a dealltwriaeth gadarn o'u hanghenion. Roeddent yn rheoli ymddygiad yn gadarnhaol ac yn darparu adborth ac arweiniad defnyddiol ar waith dysgwyr.

5.33 Darparodd llawer o diwtoriaid gefnogaeth briodol i hwyluso dysgu. Fe wnaethant addasu'r addysgu'n briodol i ddiwallu anghenion y dysgwyr. Mewn ychydig o ddosbarthiadau, roedd y ddarpariaeth yn seiliedig ar lyfrau gwaith yn bennaf. Fodd bynnag, roedd tiwtoriaid yn monitro'r dysgu'n ofalus i sicrhau cynnydd addas ac i annog unigolion i ddyfalbarhau a chymryd rhan. Datblygodd tiwtoriaid sgiliau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn briodol mewn gwersi sgiliau. Er enghraifft, roeddent yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau ysgrifennu neu amcangyfrif maint dognau fel rhan o ddeiet iach. Mewn ychydig o sesiynau, lle'r oedd yr addysgu'n gryf, defnyddiodd athrawon amrywiaeth eang o ddulliau addysgu a holi i ennyn diddordeb yr holl

ddysgwyr, hyrwyddo trafodaeth, dyfnhau eu dealltwriaeth a sicrhau cynnydd cryf. Fodd bynnag, prin oedd y ddarpariaeth ar gyfer eginddarllenwyr y tu hwnt i ddarpariaeth Ymddiriedolaeth Shannon.

5.34 Roedd grŵp gweithgar yn siarad Cymraeg a oedd, ynghyd â staff, yn trefnu dathliadau Dydd Gŵyl Dewi. Hefyd, roedd cyfleoedd gwerthfawr i'r rheini a oedd yn dymuno dysgu, gwella neu ymarfer eu Cymraeg llafar. Mewn meysydd addysg a galwedigaethol, roedd arwyddion Cymraeg defnyddiol i'w gweld mewn ystafelloedd dosbarth a gweithdai.

5.35 Roedd y gweithdai'n rhoi profiad gwaith i garcharorion mewn meysydd diwydiant, gan gynnwys teilsio, peintio, plymio, gwasanaethau cwsmeriaid, rheoli gwastraff, glanhau diwydiannol, teilwra a golchi dillad. Roedd y profiadau hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau ymarferol a meddylfryd parod i weithio. Roeddent hefyd yn gyfleoedd gwerth chweil i fagu hyder, datblygu sgiliau cyfathrebu, gwytnwch a'r sgiliau cymdeithasol ac emosiynol sydd eu hangen i lwyddo yn y gweithle. Fodd bynnag, nid oedd dau weithdy a oedd yn darparu profiad yn y diwydiant adeiladu a lletygarwch yn gweithredu adeg yr arolygiad, a oedd yn cyfyngu ar y cyfleoedd hyfforddi. Roedd un o'r rhain wedi bod yn anweithredol ers tro.



**Gweithdy teilwra**

5.36 Roedd llawer o'r gweithdai'n rhoi amrywiaeth eang o gyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr ennill cymwysterau ac ardystiadau i'w galluogi i gael gwaith yn y gymuned. Roedd y cymwysterau hyn yn cynnwys mynediad drwy e-ddysgu at amrywiaeth gynyddol o achrediadau seiliedig ar ddamcaniaethau a oedd yn cyfateb yn dda i anghenion y farchnad lafur leol, er enghraifft y sector cynradd, adeiladu, crefftau, busnes, lletygarwch a manwerthu. Roedd datblygu sgiliau hanfodol mewn gweithdai wrthi'n esblygu, er nad oedd wedi'i wreiddio'n llawn. Yn y rhan fwyaf o'r gweithdai, roedd tiwtoriaid yn monitro'n ofalus pa

mor dda roedd y dysgwyr yn ymgysylltu ac yn datblygu wrth gwblhau'r modiwlau hyn. Fodd bynnag, roedd cysylltedd gwael ar y fewnrwyd yn rhwystro mynediad at lwyfannau e-ddysgu mewn rhai rhannau o'r ystad.

**Gofal, cefnogaeth ac arweiniad**

5.37 Roedd staff ym maes addysg, sgiliau a gwaith yn dangos bod ganddynt gysylltiad buddiol a chalonogol â dysgwyr. Roeddent yn gwybod yn dda beth oedd eu hanghenion a'u diddordebau ac yn eu cefnogi wrth iddynt ennill amrywiaeth o sgiliau a meithrin hyder yn eu dysgu.

5.38 Roedd y staff yn defnyddio cynlluniau dysgu unigol yn effeithiol i gynllunio camau cynnydd, cofnodi cynnydd mewn dysgu ac ystyried cynllunio dedfrydau. Roedd y dysgwyr yn defnyddio'r rhain yn briodol i werthuso eu canlyniadau o'u cymharu â'u nodau personol.

5.39 Roedd y rhaglen mentora cymheiriaid yn gyfle gwerthfawr i fentoriaid ddatblygu eu sgiliau a chefnogi eu cyfoedion. Ar ben hynny, cynigiwyd hyfforddiant ychwanegol i fentoriaid hyfforddedig i'w galluogi i adnabod a chefnogi amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Roedd y gwaith hwn hefyd yn cryfhau gallu mentoriaid i adnabod nodweddion ynddynt eu hunain, a allai fod wedi effeithio ar eu dysgu a'u bywyd y tu mewn a'r tu allan i'r carchar.

5.40 Cynigiwyd ystod eang o gymorth a gwybodaeth am yrfaoedd i'r dysgwyr i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, yn enwedig yn ystod cyfnod olaf eu dedfryd. Roedd y ganolfan gyflogaeth yn galluogi carcharorion i gael gafael ar gymorth gan amrywiaeth o sefydliadau cymunedol, hyfforddwyr yr Adran Gwaith a Phensiynau a chyflogwyr o'r ardal leol. Cafodd y dysgwyr gymorth i chwilio am swyddi, ymarfer ar gyfer cyfweliadau ac ysgrifennu curriculum vitae a cheisiadau am swyddi. Roedd dysgwyr hefyd wedi elwa o gael gafael ar efelychydd yn y ganolfan gyflogaeth a phensetiau realiti rhithwir i ymarfer gyrru cerbydau nwyddau trwm, peiriannau tyrchu a wagenni fforch godi.

5.41 Roedd y tîm addysg, sgiliau a gwaith hefyd yn cynnig cyfleoedd i archwilio ymwybyddiaeth ddiwylliannol, gwerthoedd a chredoau, er enghraifft, dathlwyd Mis Hanes Pobl Ddu a chynhaliwyd Eisteddfod ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi.

5.42 Roedd cefnogaeth werthfawr i ddysgwyr ag ADY, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o strategaethau i gefnogi dysgu ac ystod gyfyngedig o adnoddau penodol, fel troshaenau lliw a chymhorthion ar gyfer beiros i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth. Roedd ystafell synhwyraidd bwrpasol yn y prif fan dysgu a sgiliau, a oedd yn cael ei defnyddio gan ddysgwyr i gefnogi eu lles. Ar ben hynny, roedd y tîm llesiant wedi treialu benthyg eitemau synhwyraidd o'r ganolfan les ar yr adeiniau dros y penwythnos, ac roedd y dysgwyr yn teimlo bod hyn wedi cael effaith fuddiol ar eu lles.

5.43 Er bod staff yn monitro presenoldeb bob dydd, nid oedd presenoldeb dysgwyr mewn addysg, sgiliau a gwaith, eu sgiliau cymdeithasol na'u lles yn cael eu gwerthuso dros amser.

5.44 Ychydig o gyfleoedd oedd ar gael i asesu neu gael diagnosis ADY yn ffurfiol ac roedd y rhan fwyaf o'r achosion o adnabod ADY yn cael eu datgelu gan y dysgwr ei hun. Roedd diffyg cymorth pwrpasol i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol mwy cymhleth i ddatblygu sgiliau byw'n annibynnol sylfaenol, fel coginio, glanhau, trin arian neu sgiliau trafnidiaeth. Ar ben hynny, nid oedd y gwaith o ddefnyddio symbolau, ysgogiadau gweledol nac arwyddion sylfaenol ar gyfer dysgwyr ag anghenion cyfathrebu wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

5.45 Roedd cysylltedd anghyson yn cyfyngu ar allu staff i gofnodi a monitro cynnydd a chasglu gwybodaeth am ddysgu blaenorol ac ADY mewn sawl rhan o'r adran.

**Arwain a rheoli**

5.46 Roedd gan arweinwyr weledigaeth glir i ddiwallu anghenion carcharorion, darparu mynediad at brofiadau dysgu a chymwysterau, a darparu cymorth ac arweiniad i'w helpu i sicrhau gwaith a'i gynnal ar ôl eu rhyddhau a lleihau eu risg o aildroseddu. Roedd arweinwyr a thîm ymroddedig wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth a'r canlyniadau ers yr arolygiad diwethaf. Roedd arweinwyr yn effeithiol o ran cefnogi staff newydd i ddatblygu a hyrwyddo cynlluniau defnyddiol. Roedd cynnig y cwricwlwm yn fwy cydlynol, roedd mwy o leoedd amser llawn i garcharorion gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant a gwaith, ac roedd presenoldeb wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf.

5.47 Roedd 'Bwrdd Cynghori ar Gyflogaeth' amlddisgyblaethol yn cefnogi'r ganolfan gyflogaeth yn dda i ymgysylltu â darpar gyflogwyr a sefydliadau eraill sy'n gweithio'n lleol ac yn rhanbarthol.

5.48 Cynhaliodd arweinwyr a rheolwyr amrywiaeth o weithgareddau hunanwerthuso a oedd yn sail i'r gwaith o gynllunio gwelliannau'n briodol. Roedd y gwaith hwn yn esblygu'n raddol. Roedd calendr hunanwerthuso wedi cael ei gyflwyno a oedd yn cynnwys gweithgareddau i gasglu amrywiaeth eang o dystiolaeth uniongyrchol o arsylwi gwersi, teithiau dysgu, adolygu gwaith dysgwyr ac arolygon barn carcharorion. Roedd arweinwyr yn monitro ac yn dadansoddi cynnydd carcharorion yn ofalus tuag at ennill cymwysterau, gan gynnwys cynnydd grwpiau o ddysgwyr. Roedd arweinwyr wedi dechrau gwerthuso'r rhesymau dros ddiffyg defnyddio'r ddarpariaeth i wneud rhai addasiadau. Roeddent yn defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur yn dda i lywio eu cynnig a'u gweledigaeth o ran y cwricwlwm.

5.49 Er bod y carchar yn cynnig cwricwlwm digon eang a chytbwys, roedd gwendidau neu oedi wrth sefydlu seilwaith yn effeithio ar allu dysgwyr i gael gafael ar ddarpariaeth, er enghraifft oedi wrth gwblhau dau o'r gweithdai a oedd wedi'u cynllunio i ddarparu sgiliau perthnasol ar gyfer y farchnad lafur leol a diffygion mewn cysylltedd mewnrwyd.

5.50 Roedd hunanwerthuso hefyd yn dechrau canolbwyntio'n briodol ar ansawdd y ddarpariaeth fel sail ar gyfer cynnig dysgu proffesiynol cryfach ar gyfer addysgu. Cymerodd y staff ran mewn amrywiaeth o ddysgu proffesiynol a oedd yn canolbwyntio ar fodloni blaenoriaethau

gwella penodol fel ymwybyddiaeth o awtistiaeth, ymgorffori llythrennedd a rhifedd a gwella ansawdd yr addysgu.

5.51 Roedd staff hefyd yn gweithio'n dda mewn grwpiau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros fwrw ymlaen â blaenoriaethau ar gyfer gwella addysgu, fel darparu gwersi diddorol neu brofiadau dysgu a oedd yn canolbwyntio'n effeithiol ar effaith y ddarpariaeth ar ganlyniadau dysgwyr. Roedd yr arsylwadau gan gymheiriaid a hwyluswyd drwy'r broses hon yn cynnig cyfleoedd defnyddiol i rannu a thrafod ymarfer.

5.52 Er y gallai staff addysgu ym maes addysg fanteisio ar amrywiaeth eang o ddysgu proffesiynol i ddatblygu eu haddysgu, roedd gan diwtoriaid mewn gweithdai a meysydd galwedigaethol lai o gyfleoedd i ddiweddaru a datblygu eu sgiliau galwedigaethol.

5.53 Er bod arweinwyr wedi cyflawni amrywiaeth o weithgareddau hunanwerthuso, nid oeddent bob amser yn defnyddio'r wybodaeth a oedd ar gael iddynt yn y ffordd orau i nodi'r union feysydd i'w gwella. Er enghraifft, er bod presenoldeb a chyfranogiad yn cael eu monitro'n rheolaidd a'u bod yn gofyn am farn carcharorion am y diffyg yn y niferoedd, nid oedd arweinwyr yn dadansoddi'r wybodaeth yn ddigon da i ganfod yn union beth sy'n achosi diffyg presenoldeb nac i fynd i'r afael yn llwyddiannus â rhesymau mwy cyffredinol dros ddiffygion yn y nifer sy'n manteisio ar addysg, sgiliau a lleoliadau gwaith. Dim ond dechrau cael eu datblygu oedd y dulliau o werthuso ansawdd yr addysgu.

5.54 Gweithiodd y tîm addysg, sgiliau a gwaith gyda'i gilydd yn dda i gefnogi carcharorion. Fodd bynnag, roedd prinder staff yn cael effaith negyddol ar allu rheolwyr carchardai i sicrhau parhad yn yr ystod lawn o ddarpariaeth ar gyfer carcharorion.

5.55 Adeg yr arolygiad, nid oedd tua thraean o'r carcharorion wedi cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant na sgiliau ac roedd lleiafrif o'r lleoedd a oedd ar gael yn dal heb eu dyrannu. I rai carcharorion, roedd hyn oherwydd oedi o ran mynediad at hyfforddiant cynefino ar gyfer addysg, anghysonderau yn y broses ddyrannu a rhestrau aros. Nid oedd carcharorion eraill yn ymgysylltu, yn rhannol am nad oeddent yn deall yn iawn beth oedd yn cael ei gynnig na sut i lywio drwy'r system ddyrannu.

# Section 6 Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau

**Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael eu helpu i leihau'r tebygolrwydd y byddant yn aildroseddu ac mae eu risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.**

## Plant a theuluoedd a chyswllt â'r byd tu allan

Canlyniadau disgwyliedig: Mae'r carchar yn cefnogi cyswllt carcharorion â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Mae'r carchar yn hwyluso rhaglenni sydd wedi'u hanelu at ddatblygu sgiliau magu plant a sgiliau perthynas. Mae carcharorion nad ydynt yn cael ymweliadau yn cael eu cefnogi mewn ffyrdd eraill i sefydlu neu i gynnal cefnogaeth deuluol.

6.1 Roedd y gefnogaeth i garcharorion i'w helpu i gadw mewn cysylltiad â'u plant, eu teuluoedd a'u ffrindiau yn dda iawn. Roedd strategaeth dda ar gyfer y teulu ac roedd tîm o staff a rhanddeiliaid y carchar, gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal mewn Carchardai (PACT) a Family and Friends of Prisoners (FFOPS), wedi rhoi amrywiaeth o gynlluniau ar waith yn llwyddiannus.

6.2 Gwelwyd gwelliannau mewn technoleg, gan gynnwys ffonau yn y gell a galwadau fideo cymdeithasol sydd, ochr yn ochr ag ymweliadau cymdeithasol, yn cynnig mwy o gyfleoedd i garcharorion gadw mewn cysylltiad. Roedd arweinwyr wedi trefnu galwadau fideo gyda'r nos ac ar benwythnosau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i garcharorion gysylltu â'u teuluoedd.

6.3 Roedd y neuadd ymweliadau'n dal yn fach, er bod ymdrechion wedi'u gwneud i wneud yr ystafell yn ddymunol, yn enwedig i blant, gyda murluniau ar y wal. Roedd y dodrefn yn ddi-raen ac yn anghyfforddus ac roedd arweinwyr yn aros am archeb am ddodrefn newydd. Yn ein harolwg, dywedodd 35% o'r carcharorion eu bod wedi gallu gweld eu teulu a'u ffrindiau fwy nag unwaith yn ystod y mis diwethaf o'i gymharu â 22% mewn carchardai tebyg.



**Neuadd ymweliadau’r carchar**

6.4 Roedd amrywiaeth drawiadol o gynlluniau ar waith i gefnogi cyswllt teuluol, gan gynnwys diwrnodau i’r teulu a’r cynllun Tadau Llyfr Stori (carcharorion yn recordio stori i’w hanfon at eu plant (gweler paragraff 5.11). Roedd PACT yn cynnal grwpiau babis a phlant bach bob wythnos ar gyfer hyd at chwech o aelodau’r teulu, gan gynnwys y carcharor. Roedd y grŵp wedi cael ei ymestyn i gynnwys neiniau a theidiau yn ddiweddar hefyd. Roedd y rhiant a’r plentyn yn gallu cymryd rhan a chwarae am gyfnod o ddwy awr mewn amgylchedd hamddenol. Buom yn siarad â theuluoedd a oedd wedi bod yn rhan o hyn a ddywedodd eu bod yn gwerthfawrogi’r cyfle i ddod at ei gilydd mewn lleoliad mwy normal.

6.5 Roedd PACT wedi sefydlu rhwydwaith proffesiynol o lysgenhadon ledled y gymuned leol ac wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau, gan wahodd athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill i’r carchar i ddeall yr amgylchedd yn y carchar a dod yn llysgennad PACT. Roedd rhwydwaith o bobl wedi cael ei ddatblygu a allai gefnogi plant rhieni sydd yn y carchar, y tu hwnt i wal y carchar, drwy gael cyswllt penodol mewn ysgolion i rannu gwybodaeth ac i alluogi plentyn i gysylltu â nhw os oes angen. Adeg yr arolygiad, roedd cynrychiolwyr o bum ysgol uwchradd ac 20 o ysgolion cynradd wedi mynychu’r digwyddiadau hyn.

6.6 Roedd ymgysylltiad PACT a FFOPS â theuluoedd a’r gefnogaeth gyffredinol i’r teuluoedd yn dda. Roeddent ar gael i deuluoedd bob dydd ac yn cynnig cyfleoedd mewn cyfarfodydd paned a sgwrsio i deuluoedd roi adborth a gofyn cwestiynau.

## Lleihau risg, adsefydlu a chynnydd

Canlyniadau disgwyliedig: Mae cynllunio ar gyfer rhyddhau carcharor yn dechrau pan fydd yn cyrraedd y carchar. Mae gan bob carcharor reolwr achos penodol a chynllun cystodaeth sydd wedi cael ei ddylunio i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol, rheoli'r risg o niwed a lleihau'r risg o aildroseddu.

6.7 Roedd tua thraean o'r boblogaeth yn garcharorion ar remánd ac roedd traean arall yn bwrw dedfryd fer o lai na blwyddyn. Roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn treulio llai na thri mis yn y carchar.

6.8 Cynhaliwyd dadansoddiad cynhwysfawr i ganfod anghenion y boblogaeth, a oedd yn cynnwys arolwg carcharorion, data demograffig, ffactorau troseddegol a data rhanbarthol. Roedd hyn wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu strategaeth a chynllun gweithredu i fwrw ymlaen â chynlluniau i wella canlyniadau. Roedd y rhain yn cynnwys y ganolfan gyflogaeth a rhaglen newydd wedi'i hanelu at drais domestig risg uchel, ynghyd â rhai mentrau llai. Roedd cyfarfod lleihau aildroseddu yn cael ei gynnal bob mis, ond nid oedd presenoldeb yn gyson ac nid oedd arweinwyr yn defnyddio data'n ddefnyddiol er mwyn deall effeithiolrwydd eu darpariaeth yn well.

6.9 Roedd yr uned rheoli troseddwyr (OMU) bron yn gyflawn ar gyfer swyddogion prawf a rheolwyr troseddwyr yn y carchar (POMs) ac roedd llwythi achosion yn rhesymol. Roedd lefel y cyswllt a gofnodwyd rhwng Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar a'r carcharor yn weddol dda ar y cyfan. Roedd y cyswllt cyntaf a gofnodwyd rhwng y Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar a'r carcharor fel arfer yn digwydd o fewn ychydig wythnosau i gyrraedd ond cymerodd rhai hyd at fis, a oedd yn rhy hir, yn enwedig i'r rheini a oedd yn bwrw dedfrydau byr. Roedd y rhan fwyaf o'r carcharorion a gafodd eu cyfweld yn gallu enwi eu Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar ac roedd y rhan fwyaf yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth roeddent yn ei gael. Fodd bynnag, roedd y gefnogaeth gan weithwyr allweddol yn anghyson.

6.10 Nid oedd ôl-groniad o asesiadau risg ac angen. Roedd y rhan fwyaf o safon gymharol dda, ond roedd rhai wedi'u cynnal cyn y ddedfryd ddiweddaraf neu ddim yn sôn am yr ymddygiad troseddol perthnasol. Yn y sampl a adolygwyd gennym, roedd gan bob carcharor cymwys gynllun dedfrydu ac roedd y rhan fwyaf wedi dangos cynnydd digonol yn erbyn eu targedau.

6.11 Yn ein harolwg, roedd 86% o'r ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt gynllun cystodaeth yn gwybod beth oedd angen iddynt ei wneud i gyflawni eu targedau a dywedodd 71% o'r rhain fod rhywun yn eu helpu i gyrraedd eu targedau o'i gymharu â 45% mewn carchardai tebyg. Roedd bron pob un o'r carcharorion y buom yn eu cyfweld yn rhoi sgôr uchel i Abertawe o ran diwylliant adsefydlu cadarnhaol.

6.12 Roedd y gefnogaeth i garcharorion ar remánd yn dda. Roedd pob carcharor ar remánd yn cael cymorth gan y tîm adsefydlu ar gyfer anghenion uniongyrchol ar ôl cyrraedd ac roedd rhai wedi elwa o gael

Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar os oedd pryderon ynghylch lefel y risg neu ddedfryd amhenodol bosib.

6.13 Roedd yr Uned Rheoli Troseddwyr yn cynnal clinig wythnosol ar yr adeiniau i ddarparu cefnogaeth, a oedd yn dda, ac roedd yr holl garcharorion yn gallu cael gafael ar yr wybodaeth roedd ei hangen arnynt.

**Diogelu'r cyhoedd**

6.14 Cafodd pob carcharor newydd brawf amddiffyn y cyhoedd cadarn, a oedd yn edrych ar droseddau cyfredol a blaenorol a gwybodaeth gan y gymuned. Roedd y ffaith fod pob Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar yn cael mynediad at Delius, sef system rheoli'r gwasanaeth prawf, yn helpu hyn, a oedd yn dda.

6.15 Adeg yr arolygiad, roedd 32 o garcharorion yn cael eu monitro'n llawn er mwyn amddiffyn y cyhoedd, gyda'r rhan fwyaf yn ymwneud â phryderon ynghylch trais domestig. Mewn achosion a archwiliwyd gennym, defnyddiwyd y mesurau hyn yn briodol ac roedd adolygiadau'n amserol. Fodd bynnag, canfu ein hadolygiad o gofnodion galwadau ddiffyg sylweddol mewn monitro galwadau. Mewn un achos, dim ond pump o'r 32 o alwadau a gafodd eu monitro ac nid oedd y system yn caniatáu i staff adolygu unrhyw ôl-groniad, gan arwain at fylchau sylweddol.

6.16 Yn ein sampl achosion, roedd 19 o garcharorion wedi cael asesiad risg o niwed difrifol, gyda dros hanner ohonynt yn peri risg uchel neu uchel iawn o niwed. Roedd gan bob achos gynllun rheoli risg ar waith, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn eithaf da. Roedd yr achosion gwannach yn cael eu cwblhau gan reolwyr troseddwyr cymunedol (COMs) ac nid oeddent yn rhoi digon o sylw i reoli risg yn ystod y cyfnod yn y carchar.

6.17 Roedd y pennaeth cyflawni rheoli troseddwyr yn cadw golwg yn dda ar garcharorion risg uchel a oedd ar fin cael eu rhyddhau, gan wneud yn siŵr bod holl lefelau'r trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd (MAPPA) yn cael eu cadarnhau, gan ddefnyddio llwybrau uwchgyfeirio priodol os oedd angen. Ym mhob un o'r achosion a archwiliwyd gennym, roedd digon o dystiolaeth o hysbysu ynghylch lefelau MAPPA, gyda gwaith rheoli risg priodol yn cael ei drafod a'i roi ar waith rhwng Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar a Rheolwyr Troseddwyr yn y Gymuned.

6.18 Roedd cyfarfod rheoli risg rhyngadrannol misol yn sicrhau eu bod yn cadw golwg yn ddigonol ar yr achosion risg uwch. Roedd arweinwyr wedi cysylltu ag asiantaethau cymunedol, gan gynnwys y Rheolwr Troseddwyr Cymunedol, yr heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, i ddod i'r cyfarfod i drafod achos. Roedd hyn yn dda iawn ac yn golygu bod modd rhannu gwybodaeth a rheoli risg yn dda.

6.19 Adeg yr arolygiad, roedd 19 o garcharorion wedi'u carcharu a oedd yn achosion MAPPA lefel dau, nifer uchel o ystyried y boblogaeth yn Abertawe. Roedd presenoldeb pob Rheolwr Troseddwyr yn y Carchar mewn cyfarfodydd MAPPA yn dda. Roedd ansawdd adroddiadau MAPPA yn rhesymol: roedd Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar y

gwasanaeth prawf, a oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r achosion, yn fwy manwl a dadansoddol tra bod Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar y carchar yn fwy disgrifiadol.

**Categoreiddio a throsglwyddo**

6.20 Roedd categoreiddiad cychwynnol carcharorion yn amserol ac roedd y penderfyniadau a adolygwyd gennym yn briodol, er nad oedd carcharorion yn cael eu cynnwys fel mater o drefn, felly nid oeddent yn gallu mynegi eu barn. Yn ystod y chwe mis blaenorol, bu 40 trosglwyddiad y mis ar gyfartaledd, yn bennaf i garchar y Parc neu Frynbuga, ar gyfer carcharorion a ddedfrydwyd am fwy na blwyddyn.

6.21 Adeg ein harolygiad, roedd 88 o garcharorion wedi'u dal yn ôl ac nid oedd modd eu trosglwyddo i garchar arall. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn briodol, er enghraifft cymryd rhan yn y rhaglen 12 cam, ond roedd arweinwyr yn cydnabod y byddai trosglwyddo wedi bod yn angenrheidiol i rai er mwyn cyflawni amcanion cynllunio dedfrydau.

6.22 Adeg ein harolygiad, roedd nifer fach iawn o garcharorion ar ddedfrydau penodol yn cael eu dal ac roedd pob un yn cael ei oruchwylio gan Reolwr Troseddwyr yn y Carchar penodol. Roedd ychydig dros hanner y grŵp hwn yn cael eu galw'n ôl ac roedd yn rhaid iddynt aros yn y carchar. Roedd y gweddill yn cael eu dedfrydu o'r newydd ac roedd asesiadau a gwaith rheoli risg yn cael eu cwblhau i bennu lle dylid eu lleoli'n briodol.

## Ymyriadau

Canlyniadau disgwyliedig: Mae carcharorion yn gallu cael gafael ar ymyriadau sydd wedi'u dylunio i hyrwyddo adsefydlu llwyddiannus.

6.23 Nid oedd unrhyw raglenni achrededig yn cael eu cynnig, a oedd yn gydnaws â swyddogaeth y carchar i ganolbwyntio ar helpu carcharorion i setlo yno neu baratoi ar gyfer eu rhyddhau.

6.24 Cynigiwyd nifer o ymyriadau heb eu hachredu i garcharorion, gan gynnwys darpariaeth un i un gan Reolwyr Troseddwyr yn y Carchar. Aeth y gwasanaeth prawf cymunedol i'r carchar i gynnig cynlluniau cyfiawnder adferol i garcharorion, ac roedd chwe charcharor yn dilyn cynllun o'r fath adeg ein harolygiad. Roedd carcharorion yn teimlo'n gadarnhaol iawn ynghylch eu cynnydd ar y rhaglen 12 cam i ddod dros eu dibyniaeth (gweler paragraff 4.68).

6.25 Roedd cynllun un i un wedi'i anelu at garcharorion iau, Dewisiadau a Newidiadau, wedi cychwyn. Roedd yn cael ei gyflwyno gan ddau Reolwr Troseddwyr yn y Carchar a grŵp bychan o weithwyr allweddol. Adeg ein harolygiad, roedd naw carcharor wedi cwblhau'r gwaith hwn ac roedd 20 arall yn mynd drwy brosesau asesu, dyrannu a chyflawni. Roedd pob carcharor rhwng 18 a 25 oed yn cael ei sgrinio, gan gynnwys y rheini ar remánd, a oedd yn gadarnhaol.

6.26 Ym mis Awst 2022, roedd arweinwyr wedi agor canolfan gyflogaeth ac roedd y cymorth cyflogaeth wedi gwella. Trefnwyd tair ffair gyflogaeth, a daeth nifer o ddarpar gyflogwyr ac asiantaethau cymorth iddynt. Roedd arweinwyr wedi sefydlu amrywiaeth o gysylltiadau, gan gynnwys cyflogwyr yn y gymuned leol, a oedd yn mynd i'r carchar yn rheolaidd i siarad â charcharorion am gyfleoedd ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Roedd y canlyniadau cyflogaeth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau yn well nag mewn carchardai tebyg, gydag ychydig dros un o bob pump o garcharorion yn gadael wedi cael gwaith (gweler paragraff 5.20).

6.27 Roedd y ganolfan gyflogaeth yn lle canolog i garcharorion gael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, a oedd yn gweithio ar y safle i gefnogi carcharorion gyda cheisiadau am fudd-daliadau. Roedd y tîm ailsefydlu wedi trefnu cyngor arbenigol i garcharorion a oedd angen cefnogaeth â dyledion.

6.28 Nid oedd trefniadau rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL, gweler yr Eirfa) i helpu carcharorion i gael gwaith, mynd i gyfweliadau tai neu ail-greu cysylltiadau teuluol.

## Cynllunio'r rhyddhau

Canlyniadau disgwyliedig: Mae anghenion ail-integreiddio penodol carcharorion unigol yn cael eu diwallu drwy gynllun amlasiantaethol unigol er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o ail-integreiddio'n llwyddiannus i'r gymuned.

6.29 Roedd y galw am wasanaethau ailsefydlu yn uchel. Yn ystod y flwyddyn flaenorol, roedd 80 o garcharorion yn cael eu rhyddhau i'r gymuned bob mis ar gyfartaledd, ac roedd bron pob un ohonynt i gymunedau Cymru.

6.30 Roedd cysylltiadau effeithiol rhwng y carchar a'r gwasanaeth prawf cymunedol. Roedd y broses o drosglwyddo achosion i'r gymuned yn digwydd yn amserol mewn achosion a archwiliwyd gennym. Roedd yn drawiadol gweld nifer y Rheolwyr Troseddwyr yn y Gymuned yn dod i weld carcharorion a'r tîm dedfrydau byr yn dod i'r carchar bob wythnos.

6.31 Roedd tîm ailsefydlu ymroddedig gydag adnoddau priodol yn y carchar. Roedd aelodau'r tîm yn cwrdd â phob carcharor newydd, beth bynnag fo'u statws dedfrydu neu berygl o niwed, er mwyn asesu eu hanghenion a delio â phryderon ar unwaith, fel cytundebau tenantiaeth neu faterion ariannol heb eu setlo. Roedd gan y tîm hefyd rwydwaith cynyddol o sefydliadau y gallent atgyfeirio carcharorion atynt.

6.32 Roedd cyfarfod bwrdd cyn-rhyddhau amlddisgyblaethol effeithiol yn cael ei gynnal, gyda'r carcharor yn ei fynychu bythefnos cyn cael ei ryddhau, ynghyd â Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar, adrannau ailsefydlu, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac adrannau eraill. Roedd hyn yn rhoi cyfle i bawb a oedd yn bresennol, gan gynnwys y carcharor, drafod materion heb eu datrys cyn cael ei ryddhau. Roedd yn drawiadol bod amodau'r drwydded yn cael eu rhoi

i’r carcharorion mor gynnar, gan roi amser iddynt ddeall y cyfyngiadau roedd y gwasanaethau prawf wedi’u rhoi ar waith ar gyfer pan fyddent yn cael eu rhyddhau.

6.33 Fel ffordd o gefnogi hyn ymhellach, roedd arweinwyr wedi cyflwyno nifer o sesiynau, gan gynnwys sesiynau rheoli arian, yn yr wythnosau cyn eu rhyddhau, a elwir yn ‘lolfa ymadael’ yn y carchar.

6.34 Roedd data’r carchar yn dangos nad oedd gan ormod o garcharorion lety ar y diwrnod rhyddhau. Yn ystod y 12 mis blaenorol, roedd traean o garcharorion naill ai’n ddigartref neu mewn llety dros dro ar noson eu rhyddhau. Roedd atgyfeiriadau tai yn cael eu cwblhau, ond yn y pen draw roedd hyn yn tanseilio’r gwaith cadarnhaol a wnaed i ailsefydlu carcharorion yn effeithiol yn y gymuned.

6.35 Nid oedd digon o ofal ar gyfer y trefniadau ar y diwrnod rhyddhau. Roedd carcharorion yn cael eu diosg-chwilio yn y dderbynfa cyn eu rhyddhau heb gyfiawnhad digonol. Roedd yn rhaid i garcharorion roi eu dillad a’u heiddo eraill mewn bag tryloyw ac nid oeddent yn gallu gwefru eu ffonau cyn cael eu rhyddhau, a oedd yn arfer gwael.

# Section 7 Cynnydd ar yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu llawn a'r adroddiad ar yr ymweliad craffu diwethaf

## Argymhellion yr arolygiad llawn diwethaf

Dyma grynodeb o brif ganfyddiadau adroddiad yr arolygiad llawn diwethaf a rhestr o'r holl argymhellion a wnaed, a drefnwyd o dan y pedwar prawf ar gyfer carchar iach.

## Diogelwch

**Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu dal yn ddiogel.**

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2017, roedd y trefniadau asesu risg cychwynnol a'r cymorth yn ystod y dyddiau cynnar yn wan. Roedd y rhan fwyaf o garcharorion yn teimlo'n ddiogel, ond nid oedd mesurau i leihau trais wedi'u datblygu'n ddigonol. Roedd nifer yr achosion o hunan-niweidio yn uchel ac nid oedd argymhellion sylweddol gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth ar farwolaethau yn y ddalfa wedi cael eu cyflawni. Roedd y trefniadau diogelwch yn rhesymol ac yn ddefnyddiol ond ychydig o waith a wnaed i fynd i'r afael â'r cyflenwad o gyffuriau. Nid oedd gwahanu'n cael ei ddefnyddio'n aml, ac roedd dyfarniadau'n cael eu trin yn briodol. Roedd grym yn cael ei ddefnyddio'n gymesur ac roedd sicrwydd ansawdd yn datblygu. Ni chafodd y galw mawr am ymyriadau defnyddio sylweddau ei ddiwallu'n ddigonol. Roedd y canlyniadau i garcharorion yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

### Argymhelliad allweddol

Dylai pob carcharor sydd newydd gyrraedd gael cyfweliad preifat er mwyn helpu i nodi bregusrwydd a risg, a chael cymorth systematig wedyn yn ystod eu dyddiau cynnar yn y carchar. Dylid rhoi cefnogaeth gadarn i garcharorion y nodwyd eu bod mewn perygl o hunan-niweidio a dylid rhoi argymhellion yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth ar waith yn llawn. (S43)
**Cyflawnwyd**

### Argymhellion

Dylid lleoli pob carcharor newydd mewn amgylchedd cefnogol a digynnwrf, lle gallant dderbyn gwybodaeth a chael cymorth i setlo yn y carchar. (1.11)
**Cyflawnwyd**

Dylai pob carcharor gael rhaglen gynefino lawn sy'n diwallu eu hanghenion. (1.12)
**Heb ei gyflawni**

Dylid cofnodi ac ymchwilio'n drylwyr i bob achos o drais, bwlio a defnyddio grym, a dylid cymryd camau priodol. Dylid cefnogi dioddefwyr. (1.17)
**Cyflawnwyd**

Dylai'r strategaeth i atal hunan-niweidio fod yn seiliedig ar ddadansoddiad o wybodaeth am natur digwyddiadau, patrymau a thueddiadau. Dylai'r cyfarfod carcharu mwy diogel gadw golwg manwl arni. (1.24)
**Cyflawnwyd**

Dylai celloedd gwylio cyson ddarparu amgylchedd glân a gweddus i garcharorion mewn argyfwng. (1.25)
**Cyflawnwyd**

Dylai'r cyfarfod carcharu mwy diogel sefydlu pam fod cynifer o garcharorion yn teimlo na allant siarad â Gwrandawyr pan fydd angen, ac ymchwilio i bryderon y mae'r Gwrandawyr yn rhoi gwybod amdanynt. (1.26)
**Cyflawnwyd**

Dylid datblygu polisi diogelu a'i roi ar waith. Dylai'r holl staff gael eu hyfforddi mewn gweithdrefnau diogelu a bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. (1.28)
**Heb ei gyflawni**

Dylai'r carchar gael dull gweithredu integredig o leihau'r galw am gyffuriau a'r cyflenwad o gyffuriau yn y sefydliad. Dylai mesurau lleihau'r cyflenwad gynnwys rhaglen ar gyfer profion cyffuriau gorfodol gyda digon o adnoddau, sy'n sicrhau'r lefel ofynnol o brofion targed ac yn gallu cwblhau'r holl brofion amheuaeth y gofynnir amdanynt a gwaith chwilio wedi'i dargedu. (1.36)
**Cyflawnwyd**

Dylai mesurau diogelwch fod yn gymesur. Dim ond pan fydd gwybodaeth i ategu'r penderfyniad y dylid diosg-chwilio. Dylai ymweliadau caeedig fod ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud ag ymweliadau, gyda'r cyfyngiadau'n cael eu codi yn ystod adolygiadau misol os nad oes gwybodaeth i'w cefnogi mwyach. (1.37)
**Heb ei gyflawni**

Dylai'r cynllun cymhellion a breintiau haeddiannol ddarparu cymhellion am ymddygiad da a chynnwys targedau unigol ac ystyrlon. Dylai'r rhai sydd ar y lefel sylfaenol gael eu rheoli'n gyson. (1.40)
**Heb ei gyflawni**

Dylid dadansoddi data dyfarniadau'n rheolaidd i ganfod patrymau sy'n dod i'r amlwg. Dylid ymchwilio i dueddiadau a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phryderon. (1.45)
**Cyflawnwyd**

Dylid cyflwyno trefn sicrhau ansawdd dyfarnu. (1.46)
**Cyflawnwyd**

Wrth ddadansoddi'r data defnyddio grym, dylid cynnwys yr holl ffactorau perthnasol er mwyn monitro tueddiadau a gallu ymateb yn rhagweithiol i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg. (1.52)
**Cyflawnwyd**

Dylai cynlluniau gofal unigol fod ar waith ar gyfer pob carcharor wedi'i wahanu gan ganolbwyntio'n glir ar risgiau a nodwyd a chynllunio ar gyfer ailintegreiddio'n llwyddiannus. (1.57)
**Heb ei gyflawni**

Ni ddylid cadw carcharorion yn yr uned wahanu fel mater o drefn cyn eu dyfarniadau. (1.58)
**Cyflawnwyd**

Dylid cynnal cyfarfodydd monitro gwahanu yn rheolaidd, gyda staff craidd yn bresennol yn gyson a data'n cael ei ddadansoddi. (1.59)
**Cyflawnwyd**

## Parch

**Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch at eu hurddas.**

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2017, roedd y mannau cymunedol yn weddol lân ond roedd y carchar yn orlawn ac roedd nifer o gelloedd mewn cyflwr gwael. Nid oedd gormod o garcharorion yn derbyn hanfodion sylfaenol fel dillad glân, cynfasau nac yn gallu gwneud galwadau ffôn. Roedd y berthynas rhwng staff a charcharorion yn dda ar y cyfan ond weithiau'n oddefol. Roedd rheoli cydraddoldeb ac amrywiaeth yn wan ond yn gwella. Roedd y ddarpariaeth ffydd yn dda. Fel arfer, roedd cwynion yn cael eu rheoli'n briodol. Nid oedd gwasanaethau iechyd yn diwallu'r angen yn ddigonol. Roedd llawer iawn o fwyd poeth yn cael ei ddarparu, ond roedd yr amseroedd bwyd yn rhy gynnar. Nid oedd y canlyniadau i garcharorion yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

### Argymhelliad allweddol

Dylid darparu digon o ddillad, dillad gwely a thyweli o ansawdd da i garcharorion bob wythnos. (S44)
**Cyflawnwyd**

### Argymhellion

Dylai pob carcharor sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau gael mynediad prydlon a pharhaus at ystod gynhwysfawr o gymorth seicogymdeithasol sy'n diwallu eu hanghenion dynodedig. (1.69)

Dylai pob carcharor sy'n rhoi'r gorau i gymryd cyffuriau ac alcohol gael eu monitro a derbyn presgripsiynau cynhwysfawr yn unol â Chanllawiau'r DU ar Reolaeth Glinigol Camddefnyddio a Dibyniaeth ar Gyffuriau 2017. Dylai carcharorion sy'n parhau i gymryd meddyginiaeth amnewid opiadau yn y gymuned gael adolygu eu presgripsiynau'n rheolaidd. (1.70)
**Cyflawnwyd**

Ni ddylai celloedd gynnwys mwy o garcharorion nag y maent wedi'u cynllunio ar eu cyfer. (2.9)
**Heb ei gyflawni**

Dylai glendid a chyflwr celloedd a mannau cymunedol ar bob adain fod o safon dda. (2.10)
**Cyflawnwyd**

Dylai carcharorion allu gwneud galwad ffôn bob dydd. (2.11)
**Cyflawnwyd**

Dylid ateb clychau'r celloedd yn brydlon. (2.12)
**Cyflawnwyd**

Dylid monitro'r system geisiadau i sicrhau bod yr ymatebion yn amserol ac yn bwrpasol. (2.13)
**Heb ei gyflawni**

Dylai staff ofalu'n gyson am garcharorion a'u rheoli. Dylent herio ymddygiad amhriodol ac annog carcharorion i ymgysylltu â'r drefn. (2.16)
**Cyflawnwyd**

Dylid adolygu'r adnodd monitro cydraddoldeb cenedlaethol fel nad yw'r data'n fwy na mis oed. Dylai'r tîm cydraddoldeb ystyried y gwahaniaethau, ymchwilio'n drylwyr iddynt a rhoi sylw iddynt. (2.23)
**Cyflawnwyd**

Dylid ymchwilio'n drylwyr i bob achos o wahaniaethu honedig. Dylai sicrhau ansawdd fod yn effeithiol a dylai gynnwys craffu allanol. Dylid ymchwilio i gwynion safonol sy'n honni bod gwahaniaethu wedi digwydd fel Ffurflenni Riportio Digwyddiadau Gwahaniaethu (DIRFs). (2.24)
**Cyflawnwyd**

Dylid nodi anghenion penodol carcharorion sydd â nodweddion gwarchodedig a mynd i'r afael â hwy'n systematig. (2.32)
**Heb ei gyflawni**

Dylid rhoi prosesau cwyno ar waith yn gyson a dylai rheolwyr sicrhau bod carcharorion yn cael ymatebion cwrtais a phenodol. (2.39)
**Cyflawnwyd**

Dylid sefydlu trefniadau llywodraethu clinigol ffurfiol i sicrhau bod safonau priodol sy'n ymwneud â hybu iechyd, archwilio, atal heintiau, rheoli cwynion, ymgysylltu â charcharorion a goruchwyliaeth glinigol yn cael eu darparu'n gyson. (2.50)
**Cyflawnwyd**

Dylid cofnodi a monitro ymatebion i argyfyngau meddygol fel mater o drefn er mwyn sicrhau y cyrhaeddir y safonau disgwyliedig. Dylai offer dadebru fod ar gael yn yr adran gofal iechyd a dylid gwirio'r holl offer yn rheolaidd yn erbyn rhestrau safonedig. (2.51)
**Cyflawnwyd**

Dylai carcharorion allu cwyno am wasanaethau iechyd drwy system gyfrinachol sy'n cael ei hysbysebu'n dda a dylai ymatebion fynd i'r afael â'r holl faterion a godwyd. (2.52)
**Cyflawnwyd**

Dylai carcharorion gael mynediad rhwydd at ymyriadau hybu iechyd perthnasol, gan gynnwys cymorth di-fwg a'r holl raglenni sgrinio cymunedol perthnasol. (2.53)
**Cyflawnwyd**

Dylid lleihau'r amser aros i weld optegydd er mwyn sicrhau bod carcharorion yn cael gofal amserol. (2.58)
**Cyflawnwyd**

Dylid adolygu gallu'r tîm fferylliaeth er mwyn i'r tîm allu darparu clinigau adolygu defnyddio meddyginiaethau a gwasanaethau eraill i wella'r gofal a'r canlyniadau i garcharorion. (2.63)
**Cyflawnwyd**

Dylid darparu cyfleusterau i storio meddyginiaethau mewn meddiant yn ddiogel. (2.64)
**Heb ei gyflawni**

Dylai'r holl rowndiau meddyginiaethau gael eu rheoli a'u goruchwylio'n ddigonol i sicrhau bod cleifion yn cael eu hadnabod yn gywir, bod cyfrinachedd cleifion yn cael ei ddiogelu a bod meddyginiaethau'n cael eu rhoi ar adegau therapiwtig. (2.65)
**Cyflawnwyd**

Dylid cytuno ar y contract gwasanaeth ar gyfer deintyddiaeth a threfnu tendr ar ei gyfer cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau bod carcharorion yn gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd deintyddol sy'n cael eu llywodraethu'n briodol mewn da bryd. Yn benodol, dylid trin dynion sydd mewn poen a thrallod difrifol fel mater o flaenoriaeth. (2.68)
**Cyflawnwyd**

Dylai pob claf sydd â chyflyrau iechyd meddwl gael mynediad amserol at amrywiaeth o ymyriadau sy'n diwallu eu hanghenion dynodedig. (2.73)
**Heb ei gyflawni**

Ni ddylid gweini cinio cyn hanner dydd a dylai'r pryd hwyr fod gyda'r nos. (2.79)
**Heb ei gyflawni**

Ni ddylid codi ffi weinyddol ar garcharorion am archebion catalog. (2.81)
**Cyflawnwyd**

## Gweithgarwch pwrpasol

**Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy’n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.**

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2017, nid oedd carcharorion yn cael digon o amser allan o’r gell. Roedd y gwaith rheoli gweithgareddau yn strategol yn wan. Nid oedd digon o weithgarwch ar gyfer y boblogaeth. Roedd cyflawniad y rhai a fynychodd yn dda. Roedd yr addysgu a’r dysgu’n ddigonol ond roedd presenoldeb yn wael. Roedd y llyfrgell yn cael ei rheoli’n dda ond nid oedd mynediad at un adain bron o gwbl, ac roedd hynny’n annerbyniol. Roedd y ddarpariaeth addysg gorfforol yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o garcharorion. Roedd y canlyniadau i garcharorion yn wael yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

**Argymhelliad allweddol**

Dylai rheolwyr sicrhau bod carcharorion yn cael eu datgloi a’u bod yn cymryd rhan mewn gweithgarwch adeiladol yn ystod y diwrnod gwaith, a bod presenoldeb gwael yn cael sylw’n gyson. Dylai nifer, amrediad ac ansawdd yr addysg, yr hyfforddiant a’r gweithleoedd fod yn ddigon i roi cyfleoedd realistig i garcharorion sydd wedi’u dedfrydu wella eu rhagolygon cyflogaeth. (S45)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

**Argymhellion**

Dylai carcharorion gael trefn sy’n cynnwys cymdeithasu bob dydd ac o leiaf awr yn yr awyr agored. (3.3)
**Heb ei gyflawni**

Dylai rôl y ddarpariaeth dysgu a sgiliau o ran lleihau troseddu fod yn ganolog i weledigaeth strategol y carchar. (3.12)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylai rheolwyr sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud yn gyflym o ran cyflawni’r amcanion yng nghynllun datblygu ansawdd y carchar. Dylid defnyddio data’n effeithiol fel sail i welliannau wrth gynllunio’r cwricwlwm, ansawdd a pherfformiad. (3.13)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylai rheolwyr sicrhau bod anghenion dysgu athrawon yn cael eu hasesu’n briodol a’u bod yn cael cyfle i wella eu sgiliau. (3.22)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylai athrawon gyflwyno sesiynau wedi’u cynllunio’n dda sy’n diwallu anghenion dysgu unigol carcharorion. (3.23)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

Dylai carcharorion allu ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau dysgu achrededig a chael cyfleoedd i symud ymlaen i lefelau uwch. (3.30)
**Cyflawnwyd**

Dylai rheolwyr sicrhau bod pob carcharor yn gallu mynd i'r llyfrgell yn rheolaidd. (3.35)
**Cyflawnwyd**

## Ailsefydlu

**Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned ac yn cael eu helpu'n effeithiol i leihau'r tebygolrwydd o aildroseddu.**

Yn yr arolygiad diwethaf yn 2017, roedd y trosolwg strategol o waith ailsefydlu yn wan ac roedd diffyg dull carchar cyfan o ailsefydlu. Roedd y gwaith o reoli troseddwyr yn wael. Roedd darpariaeth resymol gan gwmni adsefydlu cymunedol (CRC) ond cafodd gormod o ddynion eu rhyddhau heb lety cynaliadwy. Roedd y gwaith amddiffyn y cyhoedd yn gadarn. Roedd prosesau cyrffyw cyfyngu i'r cartref yn effeithlon. Ychydig iawn o gefnogaeth oedd ar gael i garcharorion â dedfryd amhenodol. Roedd y gwaith i gefnogi cysylltiadau teuluol yn dda. Roedd y trefniadau ymweld yn briodol ond roedd yr amgylchedd wedi dirywio. Nid oedd y canlyniadau i garcharorion yn ddigon da yn erbyn y prawf carchar iach hwn.

### Argymhelliad allweddol

Dylai strategaeth a chynllun gweithredu cyfredol ar gyfer lleihau aildroseddu adlewyrchu ymddygiad troseddol ac anghenion ailsefydlu pob carcharor, gan gynnwys y rheini sydd ar ddedfrydau byr ac ar remánd. Dylai rheolwyr lleol a chenedlaethol sicrhau bod digon o staff yn yr uned rheoli troseddwyr i gefnogi carcharorion drwy ddedfryd. Dylai'r dull gweithredu strategol sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i leihau'n sylweddol y nifer uchel o ddynion sy'n cael eu rhyddhau heb lety cynaliadwy, gan gynnwys cefnogaeth gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y broblem. (S46)
**Cyflawnwyd yn rhannol**

### Argymhellion

Dylai staff ym mhob adran, gan gynnwys staff preswyl a staff Ymddiriedolaeth St Giles, gydweithio'n effeithiol i sicrhau bod anghenion adsefydlu ac ailsefydlu carcharorion yn cael eu diwallu. Yn benodol, dylai asiantaethau bob amser roi gwybod i Ymddiriedolaeth St Giles am ganlyniad yr atgyfeiriadau er mwyn sicrhau bod y gwaith ailsefydlu'n cael ei gynllunio'n barhaus. (4.6)
**Cyflawnwyd**

Dylid datblygu cysylltiadau â mudiadau cymunedol sy'n gallu cyfrannu at waith ailsefydlu. (4.7)
**Cyflawnwyd**

Dylai goruchwylwyr troseddwyr gael eu hyfforddi a'u goruchwylio'n briodol. Dylid sicrhau ansawdd eu gwaith yn effeithiol. (4.16)
**Cyflawnwyd**

Dylid atgyfeirio achosion yn brydlon at y tîm rheoli risg rhyngadrannol a dylid monitro cynlluniau gweithredu i sicrhau bod yr holl gamau gweithredu'n cael eu cwblhau. (4.20)
**Cyflawnwyd**

Dylai fod cefnogaeth briodol ar gyfer carcharorion â dedfryd amhenodol. Dylai'r rhai sydd angen mynychu rhaglen ymddygiad troseddol nad yw ar gael yn Abertawe gael eu trosglwyddo i garchar priodol yn brydlon. (4.24)
**Cyflawnwyd**

Dylid ailwampio'r ardal ymweliadau i gynnig amgylchedd croesawgar a dylid adleoli'r bythau ymweliadau caeedig y tu hwnt i olwg y brif ardal ymweld. (4.43)
**Cyflawnwyd**

## Argymhellion yn dilyn yr ymweliad craffu

Dyma restr o'r argymhellion a wnaed yn adroddiad yr ymweliad craffu ym mis Medi 2020.

Ni ddylai carcharorion sy'n cyrraedd ar ddiwrnodau gwahanol gymysgu yn yr uned cohort dros dro. (S3)
**Ddim yn berthnasol mwyach**

Dylai carcharorion sy'n cael eu rheoli ar ACCT gael gofal a chymorth cyson sydd wedi'i gofnodi'n dda ac sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau sy'n eu gwneud yn fregus o ran hunan-niweidio neu hunanladdiad. (S4)
**Cyflawnwyd**

Dylid goruchwylio a dadansoddi cydraddoldeb ac amrywiaeth yn drylwyr er mwyn sicrhau bod gwahaniaethau o ran triniaeth a mynediad at y drefn yn cael eu nodi, eu deall a'u datrys. (S5)
**Cyflawnwyd**

Dylai Bwrdd y Bartneriaeth adolygu'r trefniadau diogelwch gwael ar gyfer meddyginiaethau a'r arferion gweinyddu yn yr unedau gwahanu ac unedau A a B i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu cludo'n ddiogel o gwmpas y carchar a'u rhoi'n ddiogel i gleifion yn unol â safonau ymarfer da a phroffesiynol. (S6)
**Cyflawnwyd**

Dylai Bwrdd y Bartneriaeth adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl mewnol a'r system fonitro a chadw golwg ar y ddarpariaeth iechyd meddwl sylfaenol ac mewn argyfwng, a'i heffeithiolrwydd. (S7)
**Heb ei gyflawni**

# Appendix I Gwybodaeth am ein harolygiadau a'n hadroddiadau

Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn sefydliad annibynnol, statudol sy'n adrodd ar driniaeth ac amodau'r rhai sy'n cael eu cadw mewn carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, canolfannau hyfforddi diogel, cyfleusterau cadw mewnfudwyr, dalfa'r llysoedd a dalfeydd milwrol.

Mae pob arolygiad a wneir gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cyfrannu at ymateb y DU i'w rhwymedigaethau rhyngwladol o dan y Protocol Dewisol i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn erbyn Artaith a math arall o Driniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol (OPCAT). Mae OPCAT yn mynnu bod cyrff annibynnol yn ymweld yn rheolaidd â phob man sy'n cadw pobl yn gaeth. Yr enw a roddir am hyn yw Mecanwaith Atal Cenedlaethol (NPM) ac mae'n monitro'r driniaeth a'r amodau ar gyfer y rhai sy'n cael eu cadw'n gaeth. Mae Arolygiaeth Carchardai EF yn un o nifer o gyrff sy'n ffurfio'r Mecanwaith Atal Cenedlaethol yn y DU.

Mae pob adroddiad gan Arolygiaeth Carchardai EF yn cynnwys crynodeb o sut mae carcharorion yn cael eu trin, a'r amodau ar eu cyfer, yn seiliedig ar y pedwar prawf ar gyfer carchar iach a gyflwynwyd am y tro cyntaf yn adolygiad thematig yr Arolygiaeth hon, *Suicide is everyone's concern*, a gyhoeddwyd yn 1999. Ar gyfer carchardai dynion, y profion yw:

> **Diogelwch**
> Mae carcharorion, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael eu dal yn ddiogel.
>
> **Parch**
> Mae carcharorion yn cael eu trin â pharch at eu hurddas.
>
> **Gweithgarwch pwrpasol**
> Mae carcharorion yn gallu cymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n debygol o fod o fudd iddynt, ac mae disgwyl iddynt wneud hynny.
>
> **Cynllunio ar gyfer adsefydlu a rhyddhau**
> Mae carcharorion yn cael eu cefnogi i gynnal ac i ddatblygu perthynas â'u teulu a'u ffrindiau. Mae carcharorion yn cael cymorth i leihau eu tebygolrwydd o aildroseddu a'u risg o niwed yn cael ei reoli'n effeithiol. Mae carcharorion yn cael eu paratoi ar gyfer eu rhyddhau yn ôl i'r gymuned.

O dan bob prawf, rydym yn asesu canlyniadau ar gyfer carcharorion ac felly perfformiad cyffredinol y sefydliad yn erbyn y prawf. Mae pedwar dyfarniad posib: mewn rhai achosion, bydd materion y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol y sefydliad yn effeithio ar y perfformiad hwn, ac mae angen i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi roi sylw iddynt.

> **Mae'r canlyniadau i garcharorion yn dda.**
> Does dim tystiolaeth yr effeithir yn niweidiol ar ganlyniadau carcharorion mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.

**Mae'r canlyniadau i garcharorion yn rhesymol dda.**
Mae tystiolaeth o ganlyniadau andwyol i garcharorion mewn dim ond nifer fechan o feysydd. I'r mwyafrif, nid oes unrhyw bryderon. Mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu canlyniadau.

**Nid yw'r canlyniadau i garcharorion yn ddigon da.**
Mae tystiolaeth yr effeithir yn niweidiol ar ganlyniadau carcharorion mewn sawl maes neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i les carcharorion. Mae problemau/pryderon, os na roddir sylw iddynt, yn debygol o ddod yn destun pryder difrifol.

**Mae'r canlyniadau i garcharorion yn wael.**
Mae tystiolaeth yr effeithir yn ddifrifol ar ganlyniadau carcharorion gan arferion cyfredol. Methir â sicrhau hyd yn oed driniaeth a/neu amodau digonol ar gyfer carcharorion. Mae angen cymryd camau cywiro ar unwaith.

Gallai ein hasesiadau arwain at nodi **meysydd sy'n peri pryder.** Mae prif bryderon yn nodi'r meysydd lle mae gwendidau sylweddol yn y ffordd y mae carcharorion yn cael eu trin a'r amodau ar eu cyfer. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, bydd angen newid ymarfer a/neu adnoddau newydd neu adnoddau wedi'u hailgyfeirio. Pryderon blaenoriaeth yw'r rhai y mae'r arolygwyr yn credu sy'n fwyaf brys a phwysig ac y dylid rhoi sylw iddynt ar unwaith. Caiff y prif bryderon a'r pryderon blaenoriaeth eu crynhoi ar ddechrau adroddiadau arolygu ac mae corff yr adroddiad yn cyflwyno'r materion yn fwy manwl.

Rydym hefyd yn darparu enghreifftiau o **arferion cadarnhaol nodedig** yn ein hadroddiadau. Mae'r rhain yn rhestru arferion neu waith arloesol sy'n arwain at ganlyniadau arbennig o dda y gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrthynt. Mae'r Arolygwyr yn chwilio am dystiolaeth o ganlyniadau da i garcharorion; dulliau gwreiddiol, creadigol neu arbennig o effeithiol o ddatrys problemau neu gyflawni'r nod a ddymunir; a sut gallai sefydliadau eraill ddysgu oddi wrth yr arfer neu ei ddyblygu.

Defnyddir pum ffynhonnell dystiolaeth allweddol gan arolygwyr: arsylwi; arolygon carcharorion a staff; trafodaethau â charcharorion; trafodaethau â staff a thrydydd partïon perthnasol; a dogfennau. Yn ystod yr arolygiadau, rydym yn defnyddio dull cymysg o gasglu a dadansoddi data, gan ddefnyddio methodolegau ansoddol a meintiol. Mae tystiolaeth o wahanol ffynonellau wedi'i thriongli i gryfhau dilysrwydd ein hasesiadau.

Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae ein holl arolygiadau'n ddirybudd ac maent yn cynnwys dilyn argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Cynhelir arolygiadau o garchardai yng Nghymru ar y cyd ag Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae'r gwaith ar y cyd hwn yn sicrhau bod gwybodaeth arbenigol yn cael ei defnyddio mewn arolygiadau ac yn osgoi sawl ymweliad arolygu.

## Yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r pryderon blaenoriaeth a'r prif bryderon yn dilyn yr arolygiad a'n barn am y pedwar prawf carchar iach. Yna, ceir pedair adran, pob un yn cynnwys adroddiad manwl ar ein canfyddiadau yn erbyn ein Disgwyliadau. Meini prawf ar gyfer asesu'r driniaeth a'r amodau ar gyfer dynion mewn carchardai (Fersiwn 5, 2017) (ar gael ar ein gwefan yn https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/our- expectations/prison-expectations/). Mae Adran 7 yn rhestru argymhellion yr arolygiad llawn blaenorol (a'r ymweliad craffu lle bo hynny'n berthnasol), a'n hasesiad o a ydynt wedi'u cyflawni ai peidio.

Mae canfyddiadau'r arolwg o garcharorion a disgrifiad manwl o fethodoleg yr arolwg ar gael ar ein gwefan (gweler Rhagor o adnoddau). Sylwch mai dim ond os yw'r rhain yn ystadegol arwyddocaol y byddwn yn cyfeirio at gymariaethau â sefydliadau tebyg eraill neu arolygiadau blaenorol. Mae'r lefel arwyddocâd wedi'i gosod ar 0.01, sy'n golygu mai dim ond siawns o 1% sydd yna mai siawns sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth mewn canlyniadau.

### Y Tîm Arolygu

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn gan:

| | |
|---|---|
| Charlie Taylor | Prif arolygydd |
| Angus Jones | Arweinydd y tîm |
| David Foot | Arolygydd |
| Angela Johnson | Arolygydd |
| Esra Sari | Arolygydd |
| Donna Ward | Arolygydd |
| Martyn Griffiths | Arolygydd |
| Helen Downham | Ymchwilydd |
| Sophie Riley | Ymchwilydd |
| Reanna Walton | Ymchwilydd |
| Tania Osborne | Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol arweiniol |
| Lynn Glassup | Arolygydd iechyd a gofal cymdeithasol |
| Lindsay Woodford | Arolygydd Fferylliaeth |
| Mamta Arnott | Arolygydd Estyn |
| Steve Bell | Arolygydd Estyn |
| Mary Hughes | Arolygydd Estyn |
| Clair Price | Arolygydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru |

# Appendix II Geirfa

Rydym yn ceisio gwneud ein hadroddiadau mor glir â phosib, a dylai'r rhestr fer hon helpu i egluro rhai o'r termau arbenigol y gallech ddod ar eu traws. Os bydd angen eglurhad arnoch o unrhyw dermau eraill, edrychwch ar y rhestr dermau hirach sydd ar gael ar ein gwefan yn:
http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/about-our-inspections/

**Rhaglen 12 cam**
Grŵp cefnogaeth gan gymheiriaid sy'n helpu pobl i wella ar ôl bod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol. Nod y rhaglen yw eu helpu i gyflawni a pharhau i ymatal â sylweddau drwy gael eu cefnogi a datblygu sgiliau ymdopi newydd.

**Lle byw arferol ardystiedig (CNA) a chapasiti gweithredol**
CNA sylfaenol yw cyfanswm yr holl le byw ardystiedig mewn sefydliad ac eithrio celloedd mewn unedau gwahanu, celloedd gofal iechyd neu ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio fel arfer ar gyfer cleifion arhosiad hir. CNA sy'n cael eu defnyddio yw'r CNA sylfaenol heb gynnwys y llefydd hynny nad ydynt ar gael i'w defnyddio'n syth, fel celloedd sydd wedi'u difrodi, celloedd y mae gwaith adeiladu yn effeithio arnynt, a chelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio oherwydd prinder staff. Capasiti gweithredol yw cyfanswm y carcharorion y gall sefydliad eu dal heb beri risg difrifol i drefn dda, i ddiogelwch ac i redeg y drefn a gynlluniwyd yn briodol.

**Cynllun herio, cefnogi ac ymyrryd (CSIP)**
Caiff ei ddefnyddio gan bob carchar i oedolion i reoli'r carcharorion hynny sy'n dreisgar neu sy'n peri risg uwch o fod yn dreisgar. Rheolir a chefnogir y carcharorion hyn gyda chynllun sydd â thargedau unigol ac adolygiadau rheolaidd. Nid yw achos pawb sy'n dreisgar yn cael ei reoli ar CSIP. Mae rhai carchardai hefyd yn defnyddio'r fframwaith CSIP i gefnogi'r rheini sydd wedi dioddef trais.

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
Rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Mae'n arolygu gwasanaethau'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yn erbyn ystod o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau i dynnu sylw at feysydd sydd angen eu gwella.

**Cynllun gweithiwr allweddol**
Mae'r cynllun gweithiwr allweddol yn gweithredu ar draws yr ystâd gaeedig i ddynion ac mae'n un elfen o'r model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC). Mae gan bob swyddog carchar lwyth achosion o tua chwe charcharor. Y nod yw galluogi staff i ddatblygu perthynas adeiladol, ysgogol â charcharorion, sy'n gallu eu cefnogi a'u hannog i weithio tuag at nodau adsefydlu cadarnhaol.

**Arweinydd**
Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'arweinydd' yn cyfeirio at unrhyw un sydd â chyfrifoldeb arwain neu reoli yn y system garchardai. Byddwn yn cyfeirio ein naratif ar lefel yr arweinyddiaeth sydd â'r capasiti mwyaf i ddylanwadu ar ganlyniad penodol.

**Nodweddion Gwarchodedig**
Seiliau camwahaniaethu anghyfreithlon (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2010).

**Amddiffyn oedolion sydd mewn perygl**
Mae dyletswyddau diogelu yn berthnasol i oedolyn:

- sydd ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod lleol yn diwallu unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio); ac
- sydd yn cael, neu mewn perygl o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso; ac
- o ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny, nid yw'n gallu amddiffyn ei hun rhag naill ai'r risg o gam-drin ac esgeuluso, neu'r profiad o hynny (Deddf Gofal 2014).

**Galwadau fideo diogel**
System a gomisiynwyd gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) sy'n mynnu bod defnyddwyr yn llwytho ap i lawr i'w ffôn neu eu cyfrifiadur. Cyn bod modd trefnu galwad, rhaid i ddefnyddwyr lwytho ID dilys i fyny.

**Trwydded pwrpas arbennig ROTL**
Mae trwydded pwrpas arbennig yn caniatáu i garcharorion ymateb i amgylchiadau personol eithriadol, er enghraifft, triniaeth feddygol ac anghenion cyfiawnder troseddol eraill. Byddant yn cael eu rhyddhau am ychydig oriau fel arfer.

**Amser allan o'r gell**
Mae amser allan o'r gell, yn ogystal â 'gweithgarwch pwrpasol' ffurfiol, yn cynnwys unrhyw adeg pan fydd carcharorion allan o'u celloedd er mwyn cymdeithasu neu ddefnyddio cyfleusterau cymunedol i gael cawod neu wneud galwadau ffôn.

# Appendix III Rhagor o adnoddau

Mae rhai adnoddau eraill y dylid eu darllen ochr yn ochr â’r adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Carchardai EF (maent hefyd yn ymddangos yn yr adroddiadau wedi’u hargraffu a ddosberthir i’r carchar). Dyma’r adnoddau ar gyfer yr adroddiad hwn:

## Proffil poblogaeth carchardai

Gofynnwn am broffil poblogaeth o bob carchar fel rhan o’r wybodaeth a gasglwn yn ystod ein harolygiad. Rydym wedi cyhoeddi’r dadansoddiad hwn ar ein gwefan.

## Methodoleg a chanlyniadau’r arolwg o garcharorion

Cynhelir arolwg cynrychioliadol o’r carcharorion ar ddechrau pob arolygiad, ac mae’r canlyniadau’n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad. Mae dogfen sy’n cynnwys gwybodaeth am y fethodoleg, yr arolwg a’r dogfennau cymharu sydd yn dangos canlyniadau’r arolwg, yn cael ei chyhoeddi ochr yn ochr â’r adroddiad ar ein gwefan.

## Arolwg staff carchardai

Gwahoddir staff y carchar i lenwi arolwg staff. Cyhoeddir y canlyniadau ochr yn ochr â’r adroddiad ar ein gwefan.

Hawlfraint y Goron 2023

Mae’r cyhoeddiad hwn, ac eithrio logos, wedi’i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i’r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfonwch e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint berthnasol.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn y cyfeiriad isod neu: hmiprisons.enquiries@hmiprisons.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lwytho oddi ar y we yn:
http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan:
Arolygiaeth Carchardai EF
3ydd llawr
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU
Lloegr

Pob llun yn destun hawlfraint Arolygiaeth Carchardai EF oni nodir yn wahanol.